Arolygiaeth
Prawf EM

# Adroddiad blynyddol:
# archwiliad o wasanaethau troseddau ieuenctid
# (2018-2019)

HYDREF 2019

Mae’r adroddiad hwn yn cyfuno’r canfyddiadau o’n harchwiliadau o Dimau Troseddau Ieuenctid. Cafodd yr archwiliadau eu cynnal a’u darparu gan y tîm archwiliadau ieuenctid, dan arweiniad Alan MacDonald, gyda chefnogaeth tîm o staff gweithredol, ymchwil, cyfathrebu a chorfforaethol. Dr Louise Falshaw yw’r cyfarwyddwr sy’n gyfrifol am yr adroddiad hwn. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw ffordd yn yr archwiliadau y mae’r adroddiad hwn yn seiliedig arnynt. Heb eu cymorth a’u cydweithrediad, ni fyddai’r archwiliadau na'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir yn yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu manylion yr unigolion dan sylw.

© Hawlfraint y Goron 2019

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael i'w lwytho oddi ar y we yn:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation
Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

# Cynnwys

Cynnwys ..... 3
Rhagair ..... 4
Ffeithiau am y Cyd-destun ..... 7
Crynodeb gweithredol ..... 9
Cyfiawnder Ieuenctid: y cyd-destun ..... 17
Methodoleg archwilio ..... 22
Canfyddiadau allweddol ein harchwiliad ..... 33
Parth 1: Darpariaeth sefydliadol ..... 33
Parth 2: Datrysiadau yn y llys ..... 37
Parth 3: Datrysiadau y tu allan i'r llys ..... 42
Prif agweddau darparu ..... 48
Atodiad 1: Disgrifiad o Dîm Troseddau Ieuenctid ..... 58
Atodiad 2: Mathau o ddatrysiadau ieuenctid ..... 59
Atodiad 3: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ..... 61
Atodiad 4: Archwiliadau 2018-2019 a map ..... 62

# Rhagair



*"Mae gan Arolygiaeth Prawf EM ran hollbwysig i'w chwarae wrth adolygu ansawdd y gwaith y mae gwasanaethau troseddau ieuenctid yn ei wneud i atal aildroseddu ac i ddiogelu'r cyhoedd.*

*"Fe welsom wasanaethau gydag arweinyddiaeth gref a staff ymroddedig.*

*"Fe welsom nifer o enghreifftiau o staff yn datblygu cysylltiadau gweithio cryf gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Rhaid canmol hyn.*

*"Fodd bynnag, mae angen mwy o gefnogaeth ac arweiniad cenedlaethol ar staff ar faterion fel llinellau cyffuriau a throseddau gyda chyllyll."*

Er gwaethaf y gostyngiad enfawr yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf, mae Timau Troseddau Ieuenctid yn dal i wynebu nifer o heriau wrth reoli'r bobl ifanc a ddaw i gysylltiad â'u gwasanaethau. Efallai fod y plant hyn wedi gweld trais difrifol, yn y teulu neu ymysg ffrindiau; wedi cael eu cam-drin gan y rheini roeddent yn ymddiried ynddynt; wedi bod mewn gofal ac wedi gweld nifer o leoliadau'n chwalu; wedi camddefnyddio sylweddau; ac wedi cael eu heithrio o'r ysgol er gwaethaf eu hanghenion addysgol sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant hyn yn agored i niwed ac mae rhai mewn risg o gael eu hecsbloetio'n droseddol neu'n rhywiol, ond mae rhai o'r plant hyn yn peri risg ddifrifol i eraill hefyd. Mae'n rhaid i Dimau Troseddau Ieuenctid ddod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng trin y bobl ifanc hyn fel plant, a meithrin perthynas o ymddiriedaeth a chefnogaeth, ar yr un pryd â herio â mynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol sydd wedi cael ei ddysgu.

Mae gan Arolygiaeth Prawf EM ran hollbwysig i'w chwarae wrth bennu a ydy Timau Troseddau Ieuenctid yn cael y cydbwysedd hwn yn iawn a drwy adolygu ansawdd cyffredinol y gwaith y mae gwasanaethau'n ei wneud i atal aildroseddu ac i ddiogelu'r cyhoedd.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi archwilio 26 Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr, drwy ddefnyddio set newydd o safonau ansawdd a gafodd eu cyflwyno yn 2018. Ym mhob gwasanaeth roeddem wedi edrych ar 12 agwedd wahanol o ddarparu gwasanaeth ac rydym wedi rhoi sgôr i bob un ac rydym wedyn wedi cronni'r rhain i roi sgôr gyffredinol. Roeddem wedi mesur bod ansawdd y ddarpariaeth yn 'Rhagorol' mewn tri Thîm Troseddau Ieuenctid, yn 'Dda' mewn deuddeg, bod 'Angen gwella' wyth, ac, yn siomedig, roedd tri Thîm Troseddau Ieuenctid yn 'Annigonol'.

Er bod gan bob sefydliad ei gryfderau a'i heriau ei hun, fe welsom fod gan wasanaethau a oedd yn gwneud yn arbennig o dda rai nodweddion cyffredin – yn benodol, arweinyddiaeth gref, gan gynnwys Rheolwr y Tîm a'r Bwrdd Rheoli; gweithlu sefydlog a oedd wedi cael eu hyfforddi'n dda ac a oedd yn llawn cymhelliant gyda llwythi achosion yr oedd modd eu rheoli; amrywiaeth dda o wasanaethau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl ac addysg; a pherthynas dda gyda phartneriaid eraill fel yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd arweinyddiaeth yn gryfder mewn nifer o wasanaethau – roeddem wedi nodi bod 17 o wasanaethau yn 'Rhagorol' neu'n 'Dda'. Mae'r Byrddau Rheoli gorau yn deall eu plant a'u

pobl ifanc yn dda, maent yn deall eu rôl a'u cylch gwaith yn gadarn ac maent yn eiriolwyr ar ran y gwasanaeth.

Mae addysg deilwng yn hollbwysig i gyfleoedd bywyd y bobl ifanc hyn, er hynny fe welsom nad oedd cynrychiolwyr addysg ar bron i draean o'r Byrddau Rheoli roeddem wedi'u harchwilio. Roedd enghreifftiau o blant nad oeddent yn cael llawer o addysg neu ddim o gwbl er bod y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn gwybod amdanynt. Gydag amser ar eu dwylo, roedd rhai plant yn troseddu yn ystod oriau ysgol neu roeddent mewn risg o gael eu hudo i droseddu.

Fe welsom fod ansawdd y gwaith i adnabod a rheoli materion risg o niwed yn amrywiol. At ei gilydd, fe welsom waith cryfach ar gyfer datrysiadau yn y llys nag ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Roedd staff yn y gwasanaethau a oedd yn gwneud yn dda yn rhoi sylw i gadw pobl yn ddiogel wrth asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu achosion llys. Mewn ambell enghraifft, fodd bynnag, fe welsom fod asesu datrysiadau y tu allan i'r llys yn wan neu nad oedd digon o fanylion; roedd hyn wedyn yn effeithio ar y gwaith o gynllunio a darparu ymyriadau.

Fe welsom amrywiaeth fawr hefyd yn y ffordd mae gwasanaethau'n defnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys.
Roedd gwasanaethau a oedd yn gwneud yn dda yn defnyddio'r mesurau hyn yn briodol er mwyn gwyro plant a phobl ifanc a oedd wedi cyflawni troseddau lefel isel oddi wrth y system gyfiawnder ffurfiol. Roedd eraill yn rhy gosbedigol, yn rhy drugarog neu'n rhy anghyson yn sut roeddent yn defnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys. Fe welsom hefyd nad oedd cydberthynas rhwng y data ar gyfer y rheini a oedd yn ymuno â'r system am y tro cyntaf a'n dyfarniadau ynghylch ansawdd pob Tîm Troseddau Ieuenctid. Yn ôl canfyddiadau ein harchwiliad, nid ydy cyfradd isel o ran y nifer sy'n ymuno â'r system am y tro cyntaf o reidrwydd yn golygu bod y gwasanaeth yn effeithiol. Efallai y gallai mesurau eraill ein helpu i fesur effeithiolrwydd gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

Roedd ansawdd y staff mewn nifer o wasanaethau wedi cael cryn argraff arnom – roeddem wedi nodi bod 17 o wasanaethau naill ai'n 'Rhagorol' neu'n 'Dda' yn hyn o beth. Mae'r staff mewn gwasanaethau sy'n gwneud yn dda yn ymroddedig, yn wybodus ac wedi ymrwymo i helpu plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau gwell mewn bywyd. Fe welsom nifer o enghreifftiau o staff yn datblygu cysylltiadau gweithio cryf gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Rhaid canmol hyn.

Fodd bynnag, mae angen mwy o gefnogaeth ac arweiniad ar staff ar faterion sy'n bwysig yn genedlaethol. Roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a ymatebodd i'n harolwg wedi dweud wrthym eu bod yn meddwl bod troseddau gyda chyllyll ar gynnydd – er hynny mae problemau'n parhau o ran rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Yn yr un modd, mae prinder arweiniad cenedlaethol ar fynd i'r afael â throseddau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau llinellau cyffuriau. Mae troseddau gyda chyllyll a llinellau cyffuriau'n cael effaith fawr ar unigolion, eu teuluoedd ac ar gymunedau, ac ar gymdeithas drwyddi draw. Mae angen gwell arweinyddiaeth a chyfeiriad ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid er mwyn iddynt, maes o law, allu cefnogi plant a phobl ifanc i symud i ffwrdd oddi wrth y mathau hyn o droseddau.

I gloi, carwn ddiolch i bawb yn y gwasanaethau y buom yn ymweld â nhw dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf yn gwerthfawrogi bod archwiliadau'n gallu bod yn straen ar amser ac adnoddau mewn sefydliadau. Mae'n galonogol felly bod cynifer ohonoch chi wedi rhoi adborth cadarnhaol i ni am eich profiadau. Rydym yn gobeithio bod ein harchwiliadau wedi eich helpu i adnabod a dathlu ymarfer proffesiynol effeithiol, yn ogystal â helpu gwasanaethau i ganolbwyntio ar y meysydd y mae angen eu gwella.

Dyma oedd ein blwyddyn gyntaf o archwiliadau drwy ddefnyddio ein safonau a'n sgoriau newydd. Rwyf wrth fy modd bod un gwasanaeth – East Riding Youth Offending Service – wedi llwyddo i ennill sgôr 'Rhagorol' ar draws pob un o'r 12 agwedd ar eu gwaith. Rwyf yn credu y gall yr Arolygiaeth wneud rhagor i amlygu a rhannu enghreifftiau o ymarfer effeithiol; felly cadwch lygad ar agor am hyn dros y misoedd nesaf.




**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM

# Ffeithiau am y Cyd-destun

**Llifoedd drwy'r System Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018 (ffynhonnell: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)**

**Nodiadau ar y siart llif:**

1. Mae'n cynnwys oedolion a phlant. Nid yw oed y troseddwyr yn hysbys pan fydd troseddau'n cael eu riportio wrth yr heddlu.
2. Ar hyn o bryd nid yw'n hysbys am y nifer sy'n cael eu gwyro oddi wrth y System Cyfiawnder Ieuenctid yn ffurfiol drwy Ddatrysiadau Cymunedol (ffordd anffurfiol o ddelio â datrysiadau y tu allan i'r llys) neu gynlluniau fel Brysbennu.
3. Nid yw'n cynnwys heddlu Swydd Gaerhirfryn. Nid oedd heddlu Swydd Gaerhirfryn wedi gallu darparu data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018.
4. Mae hyd y dedfrydau o gaethiwed sydd ar gael ar gyfer troseddau ditiadwy yn unig. Mae'n cyfeirio at y cyfnod llawn mewn caethiwed a ddyfarnwyd (ar gyfer dedfrydau sydd â hyd penodol yn unig), nid dim ond y cyfnod sydd wedi cael ei dreulio mewn caethiwed go iawn.



## **Ein harolygiadau o wasanaethau troseddu ieuenctid** (2018-2019)

**Nifer yr adroddiadau**

**20**
arolwg unigol

**6**
ar y cyd

**Nifer yr achosion a archwiliwyd**

**791**
o achosion a gafodd eu trin yn y llys

**506**
o achosion a gafodd eu trin y tu allan i'r llys

**Nifer y cyfweliadau â rheolwyr achos**

**1,070**

**Agweddau gorau**

Arweinyddiaeth

Staff ymroddedig a medrus

Rheoli achosion a gafodd eu trin yn y llys yn well na'r rhai tu allan i'r llys



**Agweddau gwaethaf**

Cynrychiolaeth addysg strategol ar Fyrddau Rheoli

Darpariaeth addysg

Asesu risg neu niwed i eraill a diogelwch a lles mewn achosion sy'n cael eu trin y tu allan i'r llys

### Detholiad o ddyfyniadau gan wasanaethau a archwiliwyd:

"Fe gawson ni eglurhad ynglŷn â'r broses archwilio a sut fyddai'r wybodaeth a oedd yn cael ei rhoi yn cael ei defnyddio."

"Roedd yn broffesiynol iawn ond roedd y naws yn anffurfiol. Roeddwn yn teimlo'n rhan o'r broses."

"Dywedon nhw'n glir pa agweddau ar fy ngwaith oedd yn dda er mwyn i mi allu parhau i wneud yr hyn roeddwn yn ei wneud yn y meysydd hynny."

"Roeddwn wedi mwynhau'r profiad o allu bod yn agored ac yn onest am y gwasanaeth, a chael fy annog i drafod fy ngwerthoedd proffesiynol."

# Crynodeb gweithredol

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ydy arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid gydag oedolion a phlant. Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau o’n blwyddyn gyntaf o archwiliadau ieuenctid; mae’n edrych ar 26 archwiliad, 20 archwiliad sengl a 6 ar y cyd, o Dimau Troseddau Ieuenctid. Er bod hyn yn cynrychioli dim ond 18 y cant o gyfanswm nifer y Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr (n=152) ac na ellir ystyried bod hyn yn gynrychioladol, rydym wedi gweld amrywiaeth enfawr yn ansawdd y gwasanaethau sy’n cael eu darparu yn yr ardaloedd roeddem wedi ymweld â nhw, llawer mwy na’r hyn a welsom wrth archwilio gwasanaethau prawf i oedolion.

Ym mis Ebrill 2018 roeddem wedi cyflwyno ffordd newydd o archwilio Timau Troseddau Ieuenctid. Rydym nawr yn mesur ansawdd y gwasanaeth sy’n cael ei ddarparu gan bob Tîm Troseddau Ieuenctid yn ôl deuddeg safon archwilio ar draws tri pharth: darpariaeth sefydliadol; datrysiadau yn y llys; a datrysiadau y tu allan i’r llys. Roeddem hefyd wedi rhoi sgôr gyffredinol i bob Tîm Troseddau Ieuenctid.

Yn gyffredinol, roeddem wedi mesur bod ansawdd y ddarpariaeth yn ‘Rhagorol’ mewn tri Thîm Troseddau Ieuenctid, yn ‘Dda’ mewn deuddeg, bod ‘Angen gwella’ wyth, ac, yn siomedig, roedd tri Thîm Troseddau Ieuenctid yn ‘Annigonol’.

## Canfyddiadau’r archwiliad

### Parth un: Darpariaeth sefydliadol

Yn rhan gyntaf ein methodoleg archwilio, rydym yn edrych ar arweinyddiaeth gwasanaethau lleol a sut maent wedi cael eu sefydlu i ddarparu ar gyfer y bobl ifanc maent yn eu goruchwylio, o ran staffio, yr amrywiaeth o wasanaethau maent yn eu darparu a'u heiddo, eu polisïau a’u darpariaeth TGCh.

- **Byrddau Rheoli ac arweinyddiaeth**

Yn y Timau Troseddau Ieuenctid mwyaf effeithiol roedd cyswllt clir rhwng y Bwrdd Rheoli a’r gwasanaeth gweithredol. Roedd y cyfathrebu’n gryf ac roedd cysylltiad rheolaidd rhwng Aelodau’r Bwrdd a staff y rheng flaen. Roedd gan y rhan fwyaf o Dimau Troseddau Ieuenctid weledigaeth neu ddatganiad tebyg. Roedd y synnwyr o berchnogaeth o’r datganiadau hyn gryfaf pan roeddent wedi cael eu cynhyrchu ar y cyd rhwng Aelodau’r Bwrdd a’r staff. Yn yr ardaloedd gwannaf nid oedd llawer o gyswllt rhwng Aelodau’r Bwrdd a’r Staff; yn yr ardaloedd gorau roedd gwybodaeth am berfformiad wedi cael ei chyflwyno’n dda ac roedd yn cynnwys gwybodaeth feintiol ac ansoddol. Roedd Aelodau’r Bwrdd yn gofyn am esboniadau ac yn herio’r wybodaeth a oedd yn cael ei chyflwyno iddynt. Yn yr ardaloedd gwannaf roedd yr wybodaeth o ansawdd isel, roedd hi’n anghyson ac nid oedd Aelodau’r Bwrdd yn ei deall.

Roedd yr Aelodau Bwrdd mwyaf effeithiol yn cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd Bwrdd, yn eiriol ar ran gwaith y Tîm Troseddau Ieuenctid yn eu prif rôl, fel rheol fel uwch reolwr mewn asiantaeth bartner, ac roeddent wedi datblygu dealltwriaeth o’r ymarfer ar y rheng flaen.

Yn gyffredinol fe welsom broblemau mynych gyda diffyg cynrychiolaeth addysg strategol ar y Bwrdd Rheoli. Roedd hyn yn bryder penodol pan nad oedd nifer o blant a phobl ifanc yn cael eu hawl statudol i addysg.

- **Staffio**

Mae staff medrus ac ymroddedig yn gydran hollbwysig o Dîm Troseddau Ieuenctid effeithiol. Mae denu a chadw staff o ansawdd uchel yn anodd i nifer o ardaloedd. Roedd gan y Timau Troseddau Ieuenctid mwyaf effeithiol ddiwylliant clir o ddysgu a oedd yn sicrhau bod gan y staff nifer o gyfleoedd i ddatblygu. Roedd y rhan fwyaf o'r staff a welwyd yn ystod yr archwiliad wedi dangos ymrwymiad i'r rôl. Yn y Timau Troseddau Ieuenctid cryfaf roedd yr ymrwymiad hwnnw'n cael ei atgyfnerthu gan wybodaeth ddofn a lefelau uchel o sgiliau a ddatblygwyd gyda chefnogaeth eu sefydliad. Wrth ymateb i'n harolwg, dywedodd yr holl staff a ymatebodd eu bod yn gyfforddus â'u llwyth achosion/llwyth gwaith.

Roeddem hefyd wedi gweld elfennau cyffredin rhwng y Timau Troseddau Ieuenctid nad oedd eu perfformiad gystal. Roedd pob un wedi ailstrwythuro'r gwasanaeth yn sylweddol cyn ein harchwiliad ac roedd hyn wedi cael effaith fawr ar y staff ac ar ddarparu gwasanaethau; roedd y Cadeirydd wedi newid lai na 12 mis cyn yr archwiliad; ac roedd pryderon difrifol yn bodoli ynghylch darparu gwasanaethau plant yn ehangach.

- **Gwasanaethau**

Roedd yr ystod fwyaf o wasanaethau a oedd yn cael eu cynnig i blant a phobl ifanc pan roedd buddsoddiad mewn partneriaethau cryf gydag asiantaethau allweddol. Fe welsom enghreifftiau o Dimau Troseddau Ieuenctid a oedd yn cynnig amrywiaeth ardderchog o wasanaethau arbenigol, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau iechyd, a chyfathrebu, iaith a lleferydd, ond roedd y ddarpariaeth addysg yn siomedig.

Roedd ein harchwiliadau wedi datgelu bod gormod o blant a phobl ifanc heb fynediad at gyfleoedd addysg neu hyfforddiant addas a chynaliadwy. Mewn rhai achosion, roedd plant a oedd yn cael eu goruchwylio gan Dimau Troseddau Ieuenctid yn cael dim llawer mwy nag awr o addysg bob dydd, a oedd yn golygu eu bod yn segur ac yn agored i droseddu ymhellach.

Rydym wedi gofyn i'r Adran Addysg weithio gyda ni i annog timau addysg lleol i ymgysylltu â Byrddau Rheoli Timau Troseddau Ieuenctid.

### Parth dau: Datrysiadau yn y llys

Ar draws y 26 archwiliad yn yr adroddiad hwn, roedd ein harchwilwyr wedi adolygu ansawdd goruchwyliaeth 791 o achosion unigol roedd y llysoedd ieuenctid wedi delio â nhw. Cafodd pob un o'r achosion hyn eu hasesu yn erbyn pedair safon allweddol a oedd yn ymwneud ag ansawdd yr asesiad cychwynnol a gynhaliwyd, y cynlluniau a gafodd eu llunio, sut cafodd y cynlluniau hynny wedyn eu darparu ac a oedd cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn yn cael ei adolygu a sut, a'r camau a oedd yn cael eu cymryd pan roedd amgylchiadau'r unigolyn ifanc yn newid.

Fel mae adran 2 yr adroddiad hwn yn nodi, roedd gwasanaethau'n tueddu i gael sgôr uwch mewn perthynas â'r asesu a'r cynllunio a oedd yn gysylltiedig ag achosion gyda gorchymyn llys nag ar gyfer y safonau eraill. Roedd un deg wyth o'r dau ddeg chwech Tîm Troseddau Ieuenctid a archwiliwyd, er enghraifft, wedi cael sgôr 'Da' neu 'Rhagorol' ar gyfer asesu, ond dim ond deuddeg o'r dau ddeg chwech oedd wedi cyrraedd y safon hon ar gyfer y ffordd roeddent yn adolygu cynnydd achosion.

- **Risg o niwed**

Roedd nifer sylweddol o'r plant a'r bobl ifanc a oedd yn cael gwasanaeth gan Dimau Troseddau Ieuenctid yn peri rhyw fath o risg o niwed i'r cyhoedd. Mae dadansoddiad o'n set data cyfanredol yn dangos bod yr archwilwyr o'r farn bod 90 y cant o'r achosion roeddem wedi'u hasesu yn peri naill ai risg ganolig, uchel neu uchel iawn o niwed i eraill ar ddechrau

eu gorchymyn llys. Roedd chwech y cant o'r achosion yn gymwys am MAPPA[1] ac roedd tri chwarter o'r achosion hyn yn cael eu rheoli ar lefel un.

Mae ein harchwiliadau felly'n rhoi cryn bwys ar sut mae Timau Troseddau Ieuenctid yn asesu ac yn rheoli'r risgiau y mae'r bobl ifanc maent yn eu goruchwylio yn eu peri iddynt eu hunain ac i eraill. Yn gyffredinol roedd asesu'r risg o niwed i eraill ar gyfer datrysiadau yn y llys yn dda gyda hanner y gwasanaethau a gafodd eu harchwilio yn rhagorol. Yn groes i hynny, nid oedd y cynllunio ar gyfer y risg o niwed i eraill gystal ac fe welsom berfformiad cymysg ar gyfer gweithredu a chyflawni. Roeddem o'r farn bod angen gwella un deg un o wasanaethau yn eu hadolygiad o risg o niwed i eraill.

Yn gyffredinol, aseswyd bod pedwar gwasanaeth yn rhagorol ym mhob agwedd ar y gwaith o reoli'r risg o niwed i eraill. Roedd asesiadau cryf yn cefnogi cynlluniau a oedd yn seiliedig ar wybodaeth a oedd yn sylfaen i ymyriadau effeithiol, ac roedd effaith hynny'n cael ei hadolygu'n briodol.


### Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys

Roedd mwy a mwy o'r achosion a oedd yn cael eu goruchwylio gan Dimau Troseddau Ieuenctid yn cael eu gwyro oddi wrth y system cyfiawnder ffurfiol ac yn cael eu trin drwy'r hyn sy'n cael ei alw yn 'ddatrysiadau y tu allan i'r llys'. Ar draws y 26 archwiliad sy'n cael eu crynhoi yn yr adroddiad hwn, roeddem wedi edrych ar sut roedd y gwasanaethau'n goruchwylio 506 o'r achosion y tu allan i'r llys hyn.

Wrth ddefnyddio'r un safonau ag achosion llys, o ran ansawdd yr asesu, y cynllunio a'r gweithredu a'r darparu, fe welsom batrwm gwahanol i achosion â gorchymyn llys. Yn benodol, roedd ansawdd yr asesu yn waeth o lawer, gyda dim ond 11 o'r 26 gwasanaeth yn cael sgôr 'Da' neu 'Rhagorol' ar gyfer ansawdd eu gwaith asesu ar yr achosion hyn, a oedd yn golygu mai dim ond traean o'r gwasanaethau hyn (naw o'r dau ddeg chwech) a gyrhaeddodd y safon hon ar gyfer eu gwaith cynllunio (gweler y ffigur isod).

[1] Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd yw MAPPA. Rôl MAPPA yw diogelu'r cyhoedd, yn enwedig y rheini sydd eisoes wedi dioddef trosedd, rhag niwed difrifol gan droseddwyr rhywiol a threisgar. Mae'n fecanwaith sy'n galluogi'r heddlu, y gwasanaethau prawf a charchardai, ynghyd â nifer o asiantaethau sydd â dyletswydd i gydweithredu, i gydweithio ac i gyflawni eu dyletswyddau statudol a diogelu'r cyhoedd.

**Ffigur 1: Ansawdd rheoli achosion ar gyfer datrysiadau yn y llys a'r tu allan i'r llys**




Wrth gymharu â datrysiadau yn y llys, nid oedd y gwaith i reoli'r risg o niwed i eraill gystal ar gyfer achosion y tu allan i'r llys. Gwelsom fod yr asesu'n annigonol mewn gormod o wasanaethau a bod hyn yn effeithio ar y dyfarniadau o ran cynllunio, a gweithredu a darparu. Roedd rhai gwasanaethau'n rhagorol yn eu hasesiad o'r risg o niwed ar gyfer achosion llys ond yn annigonol mewn achosion a gafodd eu trin y tu allan i'r llys - roedd hyn yn bennaf oherwydd addasrwydd y teclyn asesu roeddent yn ei ddefnyddio ar gyfer gwaith y tu allan i'r llys.

Mewn datrysiadau y tu allan i'r llys fe welsom fod yr asesiadau i gadw pobl eraill yn ddiogel hefyd yn annigonol mewn cyfran helaeth o wasanaethau, unwaith eto roedd addasrwydd y teclynnau asesu a ddefnyddiwyd yn effeithio ar ba mor dda roedd asesiadau wedi cael eu cwblhau mewn rhai Timau Troseddau Ieuenctid.

**Elfennau penodol o ddarparu**

- **Troseddau gyda chyllyll**

Mae troseddau gyda chyllyll yn cynyddu ac achosi pryder difrifol i'r cyhoedd. Yn ystod haf 2019, roeddem wedi anfon arolwg at bob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr er mwyn canfod y canlynol:

- beth oedd canfyddiad rheolwyr o'r broblem troseddau gyda chyllyll yn eu hardal
- sut oeddent yn mynd i'r afael â'r broblem
- pa rwystrau oedd yn atal gweithredu effeithiol.

Hanner yr holl Dimau Troseddau Ieuenctid a ymatebodd. Roedd chwarter o reolwyr Timau Troseddau Ieuenctid wedi asesu bod troseddau gyda chyllyll yn 'broblem fawr' yn eu hardal, ac yr oedd mwyafrif (59 y cant) yn teimlo eu bod yn cynyddu. Yn gyffredinol, yr oedd pumed ran o'u llwyth achosion yn ymwneud â throseddau gyda chyllyll ac yr oedd mwyafrif helaeth (85 y cant) o gynlluniau yn goruchwylio plant a oedd wedi dioddef troseddau gyda chyllyll eu hunain.

Er bod bron i 90 y cant o Dimau Troseddau Ieuenctid wedi dweud wrthym eu bod yn darparu rhaglenni ar droseddau gyda chyllyll, llai na 30 y cant oedd wedi gwerthuso'r rhain yn ffurfiol. Mae ymdrechion lleol yn dioddef oherwydd diffyg cyfeiriad cenedlaethol.

- **Llinellau cyffuriau**

Mae'n stori debyg o ran achosion llinellau cyffuriau. Er ein bod wedi gweld tystiolaeth o rai ymdrechion arwrol i fynd i'r afael â'r broblem mewn rhai ardaloedd, mae yna ddiffyg ymwybyddiaeth mewn ardaloedd eraill sy'n achosi pryder mawr iawn. Unwaith eto, nid oes gan Dimau Troseddau Ieuenctid gyfeiriad cenedlaethol.

- **Anghymesuredd ethnig**

Er gwaethaf yr enghreifftiau o ymarfer da a welsom, mae llawer mwy o Dimau Troseddau Ieuenctid nad ydynt yn gwneud digon. Mae angen i Dimau Troseddau Ieuenctid ddysgu gan ei gilydd yn ogystal ag ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid cyfiawnder troseddol ac ieuenctid lleol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon.

- **Adsefydlu**

Yn ystod 2018 a 2019 roedd Arolygiaeth Carchardai EM ac Arolygiaeth Prawf EM wedi cynnal archwiliad thematig ar y cyd o adsefydlu ieuenctid.[2] Edrychodd ar gynllunio a chanlyniadau adsefydlu i ddeg o fechgyn ym mhob un o'r pump Sefydliad Troseddwyr Ifanc.

Canfuwyd bod cynllunio ar gyfer adsefydlu tra'n dal mewn caethiwed yn annigonol a bod y mewnbwn gan deuluoedd yn gyfyngedig. Gwelsom nifer o fechgyn nad oeddent yn gwybod beth oedd eu dyddiad rhyddhau, ac mewn un achos, ni chafodd wybod tan y diwrnod y cafodd ei ryddhau. Mae'n dilyn fod y canlyniadau dri mis yn ddiweddarach yn rhai gwael. Mewn 57 y cant o achosion nid oedd darpariaeth addysg dri mis ar ôl rhyddhau ac yr oedd 20 y cant o'r sampl eisoes wedi cael ail-euogfarn o fewn yr un cyfnod. Gan ein bod wedi adrodd ar hyn yn flaenorol, mae'n siomedig fod paratoi ar gyfer adsefydlu yn parhau i fod yn broblem.

---

[2] Archwiliad thematig ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Carchardai EM (2019). *Youth resettlement – final report into work in the community.* http://www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/inspections/youthresettlementcommunity/

- **Pontio**

Mae nifer o bwyntiau pontio i mewn ac allan o'r system cyfiawnder ieuenctid, a gall pob un ohonynt rwystro ymdrechion i gynorthwyo pobl ifanc sydd eisoes mewn sefyllfa fregus.

Canfu ein harchwiliadau nad oedd y trosglwyddiad i wasanaethau oedolion yn derbyn y gefnogaeth iawn. Dywedodd staff prawf wrthym nad oeddynt wedi derbyn hyfforddiant ar sut i reoli Gorchmynion Cadw a Hyfforddi. Roedd diffyg gwybodaeth hefyd yng ngwasanaethau oedolion ynghylch achosion ieuenctid blaenorol y deliwyd â hwy a sut y gallai hynny effeithio ar oruchwyliaeth yr unigolyn ifanc.

Gall trosglwyddiad o un Tîm Troseddau Ieuenctid i un arall fod ar y funud olaf gyda diffyg paratoi a rhannu gwybodaeth i sicrhau pontio didrafferth.

Fodd bynnag, gwelsom Dimau Troseddau Ieuenctid yn sefydlu mynediad at wasanaethau prif ffrwd pan oedd yr amser yn dod i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc symud allan o'r system cyfiawnder troseddol.

Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i gefnogi plant a phobl ifanc yn ystod y pontio allweddol hwn.

# Cyfiawnder Ieuenctid: y cyd-destun

Mae nifer y bobl ifanc sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid yn swyddogol am y tro cyntaf, sef y bobl sy'n cael rhybuddiad neu euogfarn, wedi bod yn gostwng bob blwyddyn ers dros 10 mlynedd. Yn 2018, ymunodd 14,373 o bobl ifanc â'r system am y tro cyntaf,[3] o'i gymharu â 100,464 yn 2008. Mae hyn 86 y cant yn llai, sy'n ganran anhygoel.

### Llai o gyllid, llai o lwyth achosion

Mae'r gostyngiad hwn yn nifer y bobl ifanc sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid yn golygu bod llwyth achosion statudol y Tîm Troseddau Ieuenctid (TTI) hefyd wedi gostwng. Er nad yw'r data hwn yn cael ei gasglu'n ganolog, canfu adroddiad a gafodd ei gynnal ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Mai 2015[4] fod y nifer cyfartalog o ddatrysiadau fesul ymarferydd (amcangyfrif o lwyth achosion statudol) wedi gostwng o 21 i 11 (gostyngiad o 48 y cant). Mae hyn ar y cyd â gostyngiad o 20 y cant mewn cyllid, a gostyngiad o 26 y cant yn nifer y staff dros yr un cyfnod.

Er bod y gostyngiad mewn llwyth achosion yn ymddangos yn fwy na'r gostyngiad mewn cyllid, nid yw rhifau crai yn cynrychioli lefel y cymorth sydd ei angen ar bob plentyn neu unigolyn ifanc. Nid ydynt chwaith yn adlewyrchu'r gwaith ychwanegol y mae Timau Troseddau Ieuenctid yn ei wneud i helpu i wyro plant oddi wrth y system cyfiawnder ieuenctid neu eu hatal rhag troseddu yn y lle cyntaf. Y rheini sy'n ymuno â'r system nawr yw'r rhai mwyaf heriol i weithio gyda nhw am fod ganddynt gefndiroedd cymhleth iawn a chyfuniad o anghenion. Nhw hefyd yw'r unigolion sy'n cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol.

### Yr heriau parhaus

Gyda chefndir fel hyn, nid yw'n syndod bod cyfraddau aildroseddu ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed yn parhau i fod yn uchel (40.9 y cant o fewn 12 mis o'i gymharu â 28.5 y cant ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion, ac yn uwch na'r 38.1 y cant ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed 10 mlynedd yn ôl).[5]

Yn debyg i'r nifer o bobl ifanc sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf, mae nifer y plant sy'n cael eu cadw mewn caethiwed hefyd wedi gostwng yn sylweddol. 830 oedd y nifer hwn ym mis Mai 2018, o'i gymharu â 2,541 ddegawd yn gynharach[6]. Ond, mae anghymesuredd ethnig yn parhau i fod yn broblem gynyddol. Am y tro cyntaf erioed mae mwy o bobl ifanc ddu, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig mewn caethiwed na phobl ifanc gwyn (415 o'i gymharu â 396 ym mis Mai 2019) ac maent bellach yn cyfrif am 50 y cant o'r

---

[3] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2019). *Youth Justice statistics: 2017 to 2018: Pennod 2: First-time entrants to the Youth Justice System*. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2017-to-2018.

[4] Deloitte. (2015). *Youth Offending Team Stocktake*. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445641/yot-stocktake-report.pdf.

[5] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2019). *Proven Reoffending Statistics: April - June 2017: Proven reoffending tables (annual average), January 2017 to March 2017*. https://www.gov.uk/government/statistics/proven-reoffending-statistics-april-to-june-2017.

[6] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2019b). *Youth Custody Data: Monthly Youth Custody Report May 2019*. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-custody-data.

boblogaeth caethiwed ieuenctid (o'i gymharu â 18 y cant yn y boblogaeth gyffredinol o bobl ifanc rhwng 10-17 oed[7].) Mae argymhellion adolygiad Lammy yn[8] parhau.

Er bod nifer cyffredinol y troseddau sy'n cael eu cofnodi wedi lleihau o'i gymharu â 10 mlynedd yn ôl, mae troseddau'n ymwneud â meddiant arfau wedi cynyddu: cafodd 4,315 o droseddau arf ymosodol eu cofnodi yn 2017-2018 ac mae'r nifer hwn wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2013-2014[9]. Nid yw'r ffigurau cyn uched ag yr oeddent yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2009, ond nid yw'r cyfraddau'n edrych yn addawol ar hyn o bryd.

Mae menter trais ieuenctid difrifol y llywodraeth yn ymyriad angenrheidiol. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a Gwasanaethau Tân ac Achub i bennu cwmpas archwiliad thematig ar y cyd ar y pwnc hwn. Rydym yn gobeithio y bydd yr archwiliad yn gweld bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud i leihau'r ffenomen ddisynnwyr hon yn llwyddiannus.

## Sicrhau bod y mesurau llwyddiant yn gywir

Mae nifer y bobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan Dimau Troseddau Ieuenctid oherwydd rhybuddiad neu euogfarn wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd. Felly, mae Timau Troseddau Ieuenctid a'r heddlu newid ffocws eu hadnoddau i wyro pobl ifanc oddi wrth y system cyfiawnder ieuenctid. Mae ein dadansoddiad o ddata ein sampl o achosion o archwiliadau'r llynedd yn dangos bod nifer yr achosion gwyro hyn bellach yn fwy na nifer yr achosion statudol mewn rhai Timau Troseddau Ieuenctid (roedd gan 14 o'r 24 TTI a archwiliwyd ar adeg y dadansoddiad fwy o ddatrysiadau y tu allan i'r llys ar eu llyfrau na datrysiadau yn y llys. Roedd y gymhareb gyffredinol yn uwch ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys o gymharu â datrysiadau yn y llys ym mhob un o'r 24 TTI).

Nid yw Timau Troseddau Ieuenctid yn cael eu hariannu'n uniongyrchol i gyflawni'r dasg hon. Mae hon yn sefyllfa fregus. Mae'r plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu gwyro oddi wrth y system cyfiawnder ieuenctid yn dal i ddod i sylw'r heddlu oherwydd eu hymddygiad troseddol, ond mae'r heddlu'n ymdrin â nhw'n wahanol er mwyn osgoi labelu ac effeithiau negyddol eraill sy'n gysylltiedig â dod yn rhan o'r system. Nid yw lleihau cyfraddau'r nifer o bobl ifanc sy'n ymuno â'r system am y tro cyntaf (FTE) o reidrwydd yn golygu bod ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ymddygiad niweidiol arall yn gostwng hefyd.

Nid yw cyfraddau FTE yn cyfateb yn dda â chanlyniadau ein harchwiliad chwaith. Fel y dangosir yn y siartiau isod (Ffigurau 2-4), nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw gyferbyniad rhwng y FTE lleol (na'r cyfraddau aildroseddu) a'n barn ar ansawdd y gwasanaeth troseddau ieuenctid mewn unrhyw un o'r 26 TTI rydym wedi'u harchwilio dros y 12 mis diwethaf. Nid y gwasanaethau sydd â'r gyfradd FTE isaf sydd o reidrwydd yn darparu'r gwaith o'r safon uchaf gyda'r rheini sy'n cael datrysiad yn y llys neu ddatrysiad y tu allan i'r llys.[10] [11]

[7] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2011). Census 2011: DC2101EW - Ethnic group by sex by age. https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=651.


[8] Lammy, D. (2017). *The Lammy Review: An independent review into the treatment of, and outcomes for, Black, Asian and Minority Ethnic individuals in the Criminal Justice system*. Llundain: Lammy Review. https://www.gov.uk/government/publications/lammy-review-final-report.

[9] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2019c). *Youth Justice statistics: 2017 to 2018: Pennod 4: Proven Offences by children*. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2017-to-2018.


[10] Mae data FTE ar gael ar gyfer mis Ionawr i fis Rhagfyr 2018, ac mae'r data diweddaraf ar gyfer ystadegau aildroseddu ar gyfer carfan mis Hydref 2016 i fis Medi 2017 (gan gynnwys cyfnod o flwyddyn ar ôl hynny).

[11] Mae'r siartiau'n dangos y berthynas rhwng yr ystadegau hyn (lle mae gostyngiad yn gadarnhaol) a'n sgoriau archwilio cyffredinol (lle mae cynnydd yn gadarnhaol).[11] Mae'r ystadegau R-sgwâr yn dangos pa mor agos yw'r data at y llinellau atchweliad gosodedig – yr agosaf ydyw at 1.0, y gorau y mae'r llinell yn ffitio. Fel y gwelir, mae'r perthnasoedd yn wan.


**Ffigur 2: Cydberthyniad rhwng FTE a chyfraddau archwilio**




**Ffigur 3: Cydberthyniad rhwng y gyfradd aildroseddu a chyfraddau archwilio**



**Ffigur 4: Cydberthyniad rhwng amlder troseddu a sgôr archwiliad**




Mae'n ymddangos bod mesurau perfformiad cenedlaethol cyfredol yn dweud mwy wrthym am yr amrywiadau rhwng arferion cyhuddo'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, nag ydynt am safon timau TTI lleol.

Mae'r diffyg arweiniad cenedlaethol ar sut i weithio gyda phlant a phobl ifanc 'y tu allan i'r llys' yn arwain at weithredu dull anghyson ledled y wlad. Mae hyn yn annheg ar blant a phobl ifanc. Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn derbyn y gefnogaeth a'r oruchwyliaeth ddwys y gallai fod eu hangen arnynt gan TTI, waeth beth fo'u llwybr i mewn i'r system.

Credwn ei bod hi'n amser i ni ystyried mesurau ehangach sy'n adlewyrchu'n well lefel sylfaenol y niwed sy'n cael ei achosi gan bobl ifanc (a'r niwed mae'n nhw'n ei ddioddef). Gallai casgliad newydd o fesurau gynnwys pethau fel derbyniadau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys mewn ysbytai ar gyfer ymosodiadau (er enghraifft, mae data'r GIG[12] yn dangos y bu cynnydd o 76 y cant mewn derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i anafiadau cyllyll mewn plant dan 18 oed rhwng 2013-2014 a 2017-2018) neu orddosio ar gyffuriau; atgyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol plant neu CAMHS ynghylch pryderon yn ymwneud â thrais neu ymddygiad rhywiol amhriodol; ystadegau gan ysgolion ynglŷn â meddiant cyllyll/cyffuriau ac ati. Rydym yn edrych ymlaen at ddechrau'r drafodaeth hon â phartneriaid allweddol.

## Beth sy'n digwydd ar ôl cyrraedd 18 oed?

Rydym hefyd yn cwestiynu a yw'r system cyfiawnder ieuenctid wedi'i ffurfweddu i gefnogi'r ystod oedran cywir er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae ymchwil

[12] NHS Digital. (2019). Hospital admissions for assault by sharp object. https://digital.nhs.uk/data-and-information/find-data-and-publications/supplementary-information/2019-supplementary-information-files/ae-attendances/hospital-admissions-for-assault-by-sharp-object.

niwrowyddoniaeth yn dangos bod yr ymennydd yn parhau i aeddfedu ymhell i'r 20au canol.[13]

Mae'r system cyfiawnder ieuenctid wedi'i ffurfweddu'n benodol ar gyfer darparu cymorth mwy dwys i'r rheini sy'n dal i ddatblygu ac sydd angen gofal, goruchwyliaeth a chymorth uniongyrchol. Mae'r system oedolion yn tybio lefel o hunaneffeithlonrwydd. Mae'r ymchwil yn awgrymu nad yw'n hunaneffeithlonrwydd hwn yn gyffredin ymhlith y rhai sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, neu sy'n ei gadael yn 18 oed.

Mae sylwebwyr[14] wedi galw am gydnabod y bobl sydd rhwng 18 a 25 oed fel grŵp ar wahân sydd ag anghenion penodol. Galwodd y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder am yr un fath yn 2016.[15] O ganlyniad i'n harchwiliadau ni ac archwiliadau Arolygiaeth Carchardai EM[16], rydym yn gwybod bod symud o'r system ieuenctid i'r system oedolion yn anodd. Mae'r system oedolion y cynnig llai o gyswllt a chymorth, yn darparu llai o ymyriadau wedi'u targedu fel gwasanaethau iaith a lleferydd neu CAMHs, ac mae wedi'i seilio ar fodel mwy cosbedigol. Mae'r cyfnod hwn yn un arbennig o anodd i bobl ifanc ac nid yw bob tro'n cael ei reoli'n dda gan y gwasanaethau sy'n rhan ohono. Efallai ei bod hi'n amser i ni edrych eto, ar frys, ar yr hyn y mae llenyddiaeth yn ei ddweud wrthym am hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r rheini sydd rhwng 18 a 25 oed, gan gynnwys a ddylid rhoi rôl i Dimau Troseddau Ieuenctid gefnogi'r grŵp oedran hwn sydd ychydig yn hŷn, o ystyried y dirywiad mewn llwyth achosion (sydd bellach yn llawer iawn llai nag ar gyfer gwasanaethau prawf oedolion).

[13] Transition to Adulthood. (2018). *Sentencing young adults – making the case for sentencing principles for young adults*. https://www.t2a.org.uk/wp-content/uploads/2018/09/Sentencing-Young-Adults_Web.pdf.

[14] Howard League for Penal Reform and Transition to Adulthood. (2017). *Judging Maturity: Exploring the role of maturity in the sentencing of young adults*. https://howardleague.org/wp-content/uploads/2017/07/Judging-maturity.pdf.

[15] Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder. (2016). *Young adults in criminal justice system: change in policy needed.* https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/justice-committee/news-parliament-20151/young-adults-criminal-justice-system-report-launch-16-17/


[16] Arolygiaeth Prawf EM a Charchardai EM. (2012). *Transitions: an inspection of the transition arrangements from youth to adult services in the criminal justice system*. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/prisons/wp-content/uploads/sites/4/2014/04/cjji-transitions-thematic.pdf.

## Methodoleg archwilio

Yn ystod gwanwyn 2018 fe wnaethom ni gyflwyno newidiadau i'r ffordd rydym yn archwilio. Fe wnaethom ni ddechrau archwilio Timau Troseddau Ieuenctid gan ddefnyddio safonau newydd a oedd wedi cael eu cyhoeddi. Mae'r safonau archwilio newydd yn adlewyrchu'r disgwyliadau uchel sydd gan y llywodraeth a'r cyhoedd ynglŷn â Thimau Troseddau Ieuenctid. Maent yn seiliedig ar dystiolaeth, dysgu a phrofiad, ac yn canolbwyntio ar safon y darparu. Heb fewnbynnau o ansawdd da (fel staff proffesiynol a gwasanaethau cynhwysfawr) a gweithgareddau (fel asesu achosion ac ymyriadau effeithiol) mae Timau Troseddau Ieuenctid yn llai tebygol o gyflawni eu nodau.

Mae fframwaith y safonau archwilio wedi'i grynhoi yn y diagram isod, ac mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan.[17] Mae ein dull ni o archwilio Timau Troseddau Ieuenctid yn cynnwys canolbwyntio ar dair agwedd ar y darparu ac rydym yn galw'r rhain yn barthau.

**Ffigur 5: Safonau a pharthau archwilio**





[17] Arolygiaeth Prawf EM. (2018). *Standards for inspecting youth offending services*. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2018/04/Youth-offending-standards-March-18-final.pdf.

Mae parth un (darpariaeth sefydliadol) yn ymdrin â pha mor dda y mae'r sefydliad yn cael ei arwain, ei reoli a'i drefnu.

Mae parthau dau a thri yn ymdrin ag ansawdd y gwaith mewn achosion unigol. Mae parth dau yn canolbwyntio ar ddatrysiadau yn y llys ac mae parth tri yn canolbwyntio ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys. Mae parthau dau a thri yn ymdrin â'r disgwyliadau parhaus sydd ar Dimau Troseddau Ieuenctid: cefnogi ymatal, amddiffyn y cyhoedd a chadw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn ddiogel. Mae'r safonau darparu gwasanaethau yn y ddau barth yn seiliedig ar fodel ASPIRE, sy'n sefydledig ac yn gydnabyddedig, ar gyfer goruchwylio achosion (Asesu, Cynllunio Dedfrydau, Gweithredu, Adolygu a Gwerthuso).

**Ffigur 6: Y model ASPIRE**




## Sut rydym yn beirniadu perfformiad

Rydym yn sgorio perfformiad ar gyfer y pedair safon ym mhob parth (fel y dangosir uchod). Ar gyfer pob safon yn mharthau dau a thri, rydym yn gofyn hyd at dri chwestiwn allweddol ynglŷn â safon yr oruchwyliaeth, ac mae archwilwyr yn cofnodi pa ganran o'r achosion maent yn eu harchwilio sy'n bodloni'r cwestiynau hyn. Mae pob cwestiwn yn y parthau'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r achos yn effeithiol, ac mae angen rhoi sylw priodol i bob un ohonynt. Felly, mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei phennu gan y cwestiwn allweddol sy'n cynhyrchu'r sgôr ganrannol isaf o ran cyfran yr achosion sy'n bodloni'r meini prawf hynny. Mae ein safonau hefyd yn cynnwys 'rhwystr' y mae'n rhaid i bob corff a archwilir ei basio; lle nad oes asesiad digonol o faterion diogelu plant, mae'n rhaid cael dyfarniad annigonol ar gyfer asesu niwed.

Mae sgoriau ar y lefel safonol yn galluogi i ddarparwyr Timau Troseddau Ieuenctid weld yn glir lle maent yn perfformio'n dda a lle gallant wella.

Mae pob TTI yn cael sgôr gyffredinol ar raddfa pedwar pwynt: 'Rhagorol', 'Da', 'Angen gwella' ac 'Annigonol'. Mae'r sgoriau o'r safonau unigol yn cael eu cyfuno i greu'r sgôr gyffredinol. Mae rheolau sgorio'n cael eu defnyddio i greu sgôr gyffredinol y TTI. Mae'r 12 safon yn cael eu sgorio ar raddfa o 0 i 3, lle mae 'Annigonol' = 0; 'Angen gwella' = 1; 'Da' = 2; a 'Rhagorol' = 3. Mae adio'r sgoriau hyn yn creu cyfanswm sgôr sydd rhwng 0 a 36, sy'n cael ei bandio i greu sgôr gyffredinol, fel a ganlyn:

- 0-6 = 'Annigonol'
- 7-18 = 'Angen gwella'
- 19-30 = 'Da'
- 31-36 = 'Rhagorol'.

Rydym yn rhoi sgôr gyffredinol i bob TTI am ein bod ni'n credu bod rhoi sgôr gyfunol ar gyfer bob archwiliad yn sbarduno gwelliannau lle bo angen. Mae sgôr gyffredinol yn mesur ansawdd gwasanaethau troseddau ieuenctid, gan ategu unrhyw fesurau allbwn a chanlyniadau a sefydlwyd gan y llywodraeth.

Cafodd y safonau a'r sgoriau eu datblygu dros ddeuddeg mis, drwy gynnal gweithdai ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, academyddion a darparwyr. Ar y cyfan, roeddent yn cael eu derbyn yn dda ac maent wedi cael eu derbyn fel y targed ar gyfer ymarfer safonol mewn darparu gwasanaethau.

### Cwmpas ein harchwiliad

Mae yna 152 TTI yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn dewis gwasanaethau i gael eu harchwilio yn seiliedig ar ddata diweddar am eu perfformiad ac ar hap i sicrhau trawstoriad da o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Rydym yn rhagweld y byddwn yn archwilio pob TTI dros gyfnod o bedair blynedd. Bydd rhai Timau Troseddau Ieuenctid yn cael eu harchwilio am yn gynt na hynny yn seiliedig ar ganlyniadau archwiliadau blaenorol. Byddwn yn datblygu dull dilynol ar gyfer gwasanaethau a gafodd sgôr 'Annigonol'. Byddwn hefyd yn rhoi dull pwrpasol ar waith er mwyn archwilio Timau Troseddau Ieuenctid bach i sicrhau dull cymesur o archwilio.

Yn y flwyddyn gyntaf o'r rhaglen archwilio newydd, rydym wedi archwilio 26 Tîm Troseddau Ieuenctid (gweler Atodiad 4 i gael y rhestr lawn). Yn seiliedig ar asesiad risg, penderfynwyd bod angen i chwech o'r archwiliadau hyn fod yn archwiliadau ar y cyd ag archwilwyr arbenigol o sectorau'r heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol, a dysgu a sgiliau. Gyda'n gilydd, rydym yn archwilio gwaith y bartneriaeth troseddau ieuenctid.

Rydym hefyd yn cyfrannu at raglen Archwiliadau Ardal wedi'u Targedu ar y Cyd (JTAI) sy'n cael ei harwain gan Ofsted. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n benodol ar ddiogelu plant, ond mae pob cyfres yn canolbwyntio ar rywbeth gwahanol, fel ecsbloetio troseddol a cham-drin rhywiol mewn amgylchedd teulu. Adroddwyd ar wyth JTAI yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2018-2019).

Mae'r tabl dros y ddalen yn crynhoi canfyddiadau'r 26 archwiliad, gan gynnwys dadansoddiad o sut cafodd pob un o'r 12 safon ei sgorio.

Sgoriau gwasanaethau troseddau ieuenctid a thabl sgoriau

- ☆ Rhagorol
- ● (gwyrdd) Da
- ● (oren) Angen gwella
- ● (coch) Annigonol

| Gwasanaeth a archwiliwyd | Cyhoeddwyd | Sgôr gyffredinol | Sgôr gyfansawdd | 1. Cyflawni gweithredol: 1.1 Llywodraethu ac arweinyddiaeth | 1.2 Staff | 1.3 Partneriaethau a gwasanaethau | 1.4 Gwybodaeth a chyfleusterau | 2. Datrysiadau yn y llys: 2.1 Asesu | 2.2 Cynllunio | 2.3 Gweithredu a darparu | 2.4 Adolygu | 3. Delio ag achosion y tu allan i'r llys: 3.1 Asesu | 3.2 Cynllunio | 3.3 Gweithredu a darparu | 3.4 Cydweithio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TTI East Riding | 16/05/2019 | Rhagorol | 36 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol |
| TTI Essex | 06/12/2018 | Rhagorol | 33 | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da |
| TTI Swydd Hertford | 20/09/2018 | Rhagorol | 31 | Da | Rhagorol | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da |
| GCI Sheffield | 08/08/2019 | Da | 29 | Da | Rhagorol | Da | Da | Da | Rhagorol | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da |
| TTI South Tees | 20/06/2019 | Da | 29 | Angen gwella | Da | Angen gwella | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol |
| GCI Swydd Warwick | 07/12/2018 | Da | 27 | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da | Da | Angen gwella |
| GCI Wrecsam | 28/03/2019 | Da | 27 | Rhagorol | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Rhagorol |
| TTI Wandsworth | 14/03/2019 | Da | 26 | Da | Da | Angen gwella | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da |
| TTI Hounslow | 31/01/2019 | Da | 25 | Da | Da | Da | Angen gwella | Rhagorol | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol |
| GCI Swydd Gaerhirfryn (Ar y Cyd) | 25/07/2019 | Da | 22 | Angen gwella | Da | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol |
| GCI Oldham | 04/04/2019 | Da | 21 | Da | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Annigonol | Annigonol | Angen gwella | Annigonol |
| TTI Lerpwl (Ar y Cyd) | 14/06/2019 | Da | 21 | Da | Da | Angen gwella | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol | Annigonol | Annigonol | Angen gwella | Da |
| TTI Sandwell | 01/11/2018 | Da | 20 | Angen gwella | Da | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Da | Angen gwella | Annigonol | Annigonol | Angen gwella | Rhagorol |
| TTI Hampshire | 06/09/2018 | Da | 19 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella |
| TTI Derby | 23/08/2018 | Da | 19 | Da | Angen gwella | Da | Da | Da | Angen gwella | Da | Da | Annigonol | Angen gwella | Angen gwella | Rhagorol |
| TTI Bryste | 27/09/2018 | Angen gwella | 17 | Da | Angen gwella | Angen gwella | Da | Da | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Da | Da |
| GCI Manceinion (Ar y Cyd) | 01/02/2019 | Angen gwella | 16 | Da | Angen gwella | Da | Annigonol | Da | Da | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella |
| TTI Dudley | 27/06/2019 | Angen gwella | 15 | Angen gwella | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella | Annigonol | Annigonol | Angen gwella | Da | Da |
| TTI Barking a Dagenham (Ar y Cyd) | 20/12/2018 | Angen gwella | 14 | Da | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella | Annigonol | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Da |
| TTI Lambeth (Ar y Cyd) | 25/04/2019 | Angen gwella | 14 | Da | Da | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella | Annigonol | Annigonol |
| TTI Sefton | 09/05/2019 | Angen gwella | 12 | Angen gwella | Da | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Annigonol | Da | Angen gwella | Annigonol | Annigonol | Angen gwella | Da |
| GCI Walsall | 27/06/2019 | Angen gwella | 11 | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Angen gwella |
| TTI Newham | 13/09/2019 | Angen gwella | 10 | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella | Angen gwella | Annigonol | Angen gwella | Angen gwella | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Angen gwella |
| GCI Western Bay (Ar y Cyd) | 28/03/2019 | Annigonol | 6 | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Da | Angen gwella | Annigonol | Rhagorol |
| TTI Surrey | 22/08/2019 | Annigonol | 4 | Annigonol | Annigonol | Angen gwella | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Angen gwella | Annigonol | Annigonol | Angen gwella | Annigonol | Angen gwella |
| TTI Blackpool | 18/12/2018 | Annigonol | 3 | Annigonol | Annigonol | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Annigonol | Annigonol |

## Beth yw nodweddion TTI rhagorol neu annigonol?

Rydym wedi yr ystod lawn o ansawdd gwasanaeth yn y Timau Troseddau Ieuenctid rydym wedi'u harchwilio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan amrywio o 'Rhagorol' i 'Annigonol'. Mae nodweddion ein safonau[18] a'n sgoriau[19] yn darparu llinell sylfaen ar gyfer 'sut mae da yn edrych', a byddem yn cyfeirio darllenwyr atynt er mwyn iddynt gael dealltwriaeth glir o'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan ddarparwyr, ond mae'r disgrifiad isod yn dod â bywyd i'r rhain yn seiliedig ar yr hyn y daethom ar eu traws mewn Timau Troseddau Ieuenctid a gafodd sgôr 'Rhagorol'. Yn yr un modd, rydym wedi disgrifio beth sy'n 'Annigonol' yn seiliedig ar ein canfyddiadau yn ystod archwiliadau'r flwyddyn gyntaf.

Mae ein sgoriau ar gyfer datrysiadau yn y llys a datrysiadau y tu allan i'r llys yn cael eu sbarduno gan ganlyniadau ein harchwiliadau ar achosion unigol. Rydym yn archwilio achosion drwy gwestiynu cofnodion llawn yr achos, a chyfweld y rheolwr achos perthnasol.

Ar gyfer pob safon, mae'r sgôr wedi'i halinio â'r cwestiwn allweddol sy'n cynhyrchu'r gyfran isaf o ymatebion cadarnhaol, gan gydnabod bod pob un o'r cwestiynau allweddol yn rhan annatod o bob safon.

### 1. Darpariaeth sefydliadol

#### 1.1 Llywodraethu ac arweinyddiaeth

| TTI Rhagorol | TTI Annigonol |
|---|---|
| • Mae ffocws arweinwyr strategol yn glir ac yn ddealladwy. | • Diffyg strategaeth a gweledigaeth glir, a ffocws annigonol ar ddarparu gwasanaethau. |
| • Arweinyddiaeth gyfun gan arweinwyr strategol a rheolwyr gweithredol. | • Y Bwrdd Rheoli yn aneffeithiol – diffyg dealltwriaeth o rolau Aelodau'r Bwrdd. |
| • Aelodau'r Bwrdd yn deall eu rolau ac yn eiriol dros y TTI. | • Aelodau'r Bwrdd ddim yn eiriol dros y TTI yn eu gwasanaethau ac felly mae'r rhwystrau'n parhau. |
| • Y Bwrdd yn deall proffil a lefel anghenion plant a'u teuluoedd, a'r bartneriaeth yn ymrwymo i roi mynediad iddynt at y gwasanaethau cywir. | • Nid oes gan y Bwrdd ddealltwriaeth dda o anghenion plant, ac felly ni all asesu a oes ganddynt fynediad at y gwasanaethau cywir. |
| • Cysylltiadau strategol â fforymau eraill sy'n arwain at flaenoriaethu materion cyfiawnder ieuenctid, fel ecsbloetio plant yn droseddol. | • Mecanweithiau annigonol i asesu ansawdd gwasanaethau a diffyg golwg ar faterion fel diogelwch a llesiant, a diogelu'r cyhoedd. |
| • Cymorth parhaus ar ôl i'r ymyriad ddod i ben. | • Presenoldeb anghyson yng nghyfarfodydd y Bwrdd, ac nid oes digon o gynrychiolaeth. |

[18] Arolygiaeth Prawf EM. (2018). *Standards for inspecting youth offending services*. https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2018/04/Youth-offending-standards-March-18-final.pdf.

[19] Arolygiaeth Prawf EM. (2018). *Youth offending services inspection domain one characteristics.* https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2018/05/Youth-Domain-One-rating-characteristics-March-18-final.pdf

| | |
|---|---|
| • Rheolaeth effeithiol a staff sydd â chymhelliant uchel sy'n gweithredu'r strategaeth a'r cynllun cyfiawnder ieuenctid. | • Canolbwyntio'n ormodol ar ddangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol yn hytrach nag ar ddata lleol. |
| • Arweinwyr sy'n gwrando ar staff, a staff sy'n cael eu grymuso i wella eu gwaith. | • Ddim yn gofyn am farn y staff. |
| • Dysgu a chydweithio. | • Y tîm rheoli heb gynllun clir ynglŷn â sut i gyflawni strategaeth a gweledigaeth. |
| | • Dim digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â darpariaeth wael. |

### 1.2 Staff

| TTI Rhagorol | TTI Annigonol |
|---|---|
| • Staff â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad cywir. | • Ailstrwythuro sy'n effeithio ar forâl y staff, ac ar eglurder o ran rolau. |
| • Achosion yn cael eu rhoi i staff cymwys sydd â'r sgiliau cywir. | • Diffyg cefnogaeth i staff sy'n teimlo nad oes ganddynt y sgiliau na'r wybodaeth i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. |
| • Llwyth gwaith yn cael ei fonitro, ac mae modd ei reoli – mae gan staff amser i ddatblygu perthnasoedd da gyda phlant a phobl ifanc. | • Ddim yn monitro lefelau staffio a ddim yn cynllunio'r gweithlu yn effeithiol. |
| • Prosesau ar waith ar gyfer cael staff llanw pan fo staff yn absennol. | • Cyfnodau hir neu aml lle nad oes digon o staff, sy'n golygu bod y staff sydd yno yn teimlo dan lawer o straen. |
| • Diwylliant o ddysgu parhaus – cynlluniau hyfforddi cynhwysfawr, gan gynnwys i wirfoddolwyr, ac mae staff yn teimlo eu bod yn rhan o'u datblygiad a'u hymarfer. | • Dim cynlluniau hyfforddi yn eu lle, ac ychydig iawn o dystiolaeth o ddysgu, hunanwerthuso ac ymarfer myfyriol. |
| • Lefelau bodlonrwydd staff yn uchel, staff yn ymfalchïo yn eu gwaith, ac yn ymrwymo i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. | • Diffyg atebolrwydd. |
| • Arfarniadau staff yn gyfredol a goruchwyliaeth reolaidd. | • Goruchwyliaeth reoli annigonol a disgwyliadau aneglur. |

### 1.3 Partneriaeth a gwasanaethau

| TTI Rhagorol | TTI Annigonol |
|---|---|
| • Defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth ddiweddar sy'n ddibynadwy er mwyn deall nodweddion ac anghenion ymatal plant a phobl ifanc yn yr ardal leol. | • Dealltwriaeth gyfyngedig o anghenion plant a phobl ifanc – ddim yn rhoi digon o sylw i ddata lleol. |
| • Rhagweld y galw yn y dyfodol. | • Ddim yn gallu rhagweld nac ymateb i alw yn y dyfodol. |
| • Gwasanaethau yn bodloni anghenion amrywiol plant a phobl ifanc, ac mae'n hawdd cael mynediad atynt. | • Ddim yn mynd i'r afael ag anghenion, bylchau mewn gwasanaethau arbenigol, rhwystrau wrth ddarparu'r gwasanaethau, neu eu bod nhw'n cael eu cydlynu'n wael. |
| • Dysgu a gwelliannau'n cael eu sbarduno gan weithdrefnau sicrhau ansawdd a gwaith gwerthuso trylwyr. | • Dim prosesau sicrhau ansawdd na gwerthuso ar waith, sy'n arwain at ddiffygion yn y ddarpariaeth neu at ddirywiad mewn ansawdd. |
| • Gwasanaethau integredig da ar gael i blant a phobl ifanc sydd â llawer o anghenion cymhleth. | • Dim prosesau ar waith i adolygu na gwerthuso addasrwydd, defnydd, nac effeithiolrwydd gwasanaethau. |
| • Gwaith amlasiantaethol rhagorol, a phartneriaid a rhanddeiliaid bodlon. | • Partneriaethau heb ddatblygu'n ddigonol. |
| • Hyrwyddo a chyngor ar ddeall anghenion plant a phobl ifanc er mwyn helpu partneriaid i ddarparu. | |

### 1.4 Gwybodaeth a chyfleusterau

| TTI Rhagorol | TTI Annigonol |
|---|---|
| • Polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol ac yn hygyrch i staff. | • Bylchau mewn polisïau a chanllawiau yn dylanwadu ar y gallu i ddarparu gwasanaeth o safon. |
| • Protocolau cydweithio ar waith. | • Trefniadau TGCh ddim yn cefnogi'r broses o drosglwyddo gwybodaeth hanfodol. |
| • Safle hygyrch ac addas sy'n atyniadol ac yn ddiogel i bobl ifanc. | • Tueddiadau cyfyngedig wrth fonitro perfformiad. |
| • TGCh yn cefnogi arferion gwaith da. | • Ddim yn gofyn i blant a phobl ifanc am eu barn nac yn gweithredu arno. |
| • Dadansoddi perfformiad yn dda. | • Ddim yn ceisio dysgu gan eraill na gweithredu ar hynny. |
| • Enghreifftiau da o ddatblygu'r gwasanaeth gan gynnwys plant a phobl ifanc. | • Diffyg cydnabyddiaeth o ddifrifoldeb y materion a godwyd. |

- Blaenoriaethu dysgu a gwella fel sefydliad.

Mae ein sgoriau ar gyfer datrysiadau yn y llys a datrysiadau y tu allan i’r llys yn cael eu sbarduno gan ganlyniadau ein harchwiliadau ar achosion unigol. Rydym yn archwilio achosion drwy gwestiynu cofnodion llawn yr achos, a chyfweld y rheolwr achos perthnasol.

Ar gyfer pob safon, mae’r sgôr wedi’i halinio â'r cwestiwn allweddol sy’n cynhyrchu’r gyfran isaf o ymatebion cadarnhaol, gan gydnabod bod pob un o’r cwestiynau allweddol yn rhan annatod o bob safon.

**Tabl 1: Sgoriau ar sail cyfrannau sampl achosion**

| Canran yr achosion | Sgôr (safonol) |
|---|---|
| Lleiafrif: <50% | Annigonol |
| Dim digon: 50-64% | Angen gwella |
| Mwyafrif rhesymol: 65-79% | Da |
| Mwyafrif helaeth: 80%+ | Rhagorol ☆ |

Er enghraifft, mae gweithredu a darparu yn cael eu sgorio’n ‘Rhagorol’ pan fydd ffocws digonol ym mhob un o’r tri chwestiwn allweddol (ymgysylltu, ymatal a chadw pobl eraill yn ddiogel) ar draws ‘mwyafrif helaeth’ (80 y cant+) o'r achosion y gwnaethom eu harchwilio. Ond os mai ‘mwyafrif rhesymol’ (65-79 y cant) yw’r band ar gyfer un o'r tri chwestiwn allweddol, yna rydym yn sgorio'r gweithredu a’r darparu fel ‘Da’ yn hytrach na ‘Rhagorol’.

Rydym yn chwilio am y canlynol pan rydym yn archwilio achosion unigol:

### Asesu

- Mae’r asesiad yn llawn gwybodaeth, ac yn rhoi sylw penodol i’r cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach, gan ymgysylltu rhieni/gofalwyr fel sy’n briodol.
- Mae’n adnabod ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymatal, diogelwch a llesiant, risgiau i bobl eraill, a chryfderau a ffactorau amddiffyn.
- Mae asesiad yn creu darlun cyfannol o’r plentyn neu’r unigolyn ifanc a’r rhyngweithio rhwng ffactorau. Mae’n bwysig bod dadansoddiad cynhwysfawr yn cael ei gynnal o'r ffactorau gwahanol sy’n effeithio ar fywyd plentyn neu unigolyn ifanc.
- Mae amrywiaeth eang o ffynonellau gwybodaeth yn cael eu defnyddio, gan gynnwys cofnodion ac asesiadau blaenorol, ac mewn achosion priodol, gwybodaeth a gafwyd gan asiantaethau gwahanol neu gan bobl sy’n adnabod y plentyn neu’r unigolyn ifanc.
- Mae ymgysylltu’r plentyn neu’r unigolyn ifanc yn y broses asesu yn rhoi’r cyfle iddynt deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, teimlo eu bod yn rhan o'r broses, a’u bod yn cael eu cefnogi i geisio meddwl beth mae arnynt eisiau ei gyflawni.

### Cynllunio

- Mae yna gysylltiad cryf rhwng asesu a chynllunio. Mae’r broses gynllunio yn nodi beth sydd angen ei wneud am yr anghenion a’r risgiau sydd wedi cael eu canfod.
- Mae cynllunio wedi'i osod yn y cyd-destun ehangach ar gyfer y plentyn neu’r unigolyn ifanc, gan gynnwys unigolion arwyddocaol fel sy’n briodol. Mae ymarferwyr allweddol sy’n gweithio ar draws asiantaethau gwahanol yn rhan o’r broses pan fo angen, gan wneud cysylltiadau priodol â gwaith arall a allai fod yn digwydd yn yr asiantaethau hynny.

- Mae amcanion yn benodol ac yn fesuradwy. Maent hefyd yn gyraeddadwy ac yn realistig, ac yn gosod amserlenni clir.
- Mae ymarferwyr yn gwneud ymdrech i ennyn diddordeb y plentyn neu’r unigolyn ifanc ac yn eu helpu nhw i osod nodau.
- Mae’r iaith yn y cynllun yn glir ac yn hawdd ei deall, ac yn osgoi brawddegau sy’n labelu’r plentyn neu’r unigolyn ifanc mewn ffordd sy’n cadarnhau hunaniaeth troseddu.

**Gweithredu a chyflawni**

- Mae’r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn profi dull integredig, gyda pherthnasoedd, ymyriadau, a gwasanaethau yn cyfuno i fynd i’r afael â’u risgiau a’u hanghenion penodol nhw.
- Mae darparu gwasanaeth yn adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn neu’r unigolyn ifanc, a rhoddir pwyslais digonol ar adeiladu ar gryfderau a gwella ffactorau amddiffynnol.
- Mae perthnasoedd rhwng ymarferwyr a’r plentyn neu’r unigolyn ifanc yn gadarnhaol, yn llawn ymddiriedaeth ac heb feirniadaeth yn gwbl allweddol yma.

| Enghraifft o ymarfer da |
|---|
| Rydym wedi rhoi sgôr gyffredinol ‘Rhagorol’ i TTI East Riding. Fe wnaethom hefyd roi sgôr ‘Rhagorol’ iddynt ym mhob un o'r 12 agwedd unigol y gwnaethom eu harchwilio. Dyma’r tro cyntaf i dîm wasanaethau troseddau ieuenctid neu wasanaeth prawf gael marciau llawn ym mhob rhan o’r archwiliad.<br><br>Roedd yn amlwg bod ymrwymiad cyson a pharhaus wedi bod ar fyfyrio a gwella’r gwasanaeth a’r bartneriaeth. Mae’r uwch arweinwyr yn buddsoddi yn y TTI, ac mae yna gyd-ddealltwriaeth o anghenion plant a phobl ifanc ar draws y bartneriaeth. Roedd y cysylltiadau rhwng ymarfer a strategaeth yn gryf, ac roedd hyn yn golygu bod eu blaenoriaethau strategol yn briodol, yn berthnasol ac yn cael eu gweithredu. Mae yna fuddsoddiad parhaus mewn recriwtio, cadw a hyfforddi staff o ansawdd da a oedd â dyheadau uchel ar gyfer plant a phobl ifanc, a'r gwasanaeth. Arweiniodd hyn at dîm llawn cymhelliant a weithiodd mewn ffyrdd creadigol ac arloesol i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc; cafodd eu syniadau eu croesawu a’u cefnogi gan reolwyr. Cynigiwyd cefnogaeth barhaus i bob teulu gan y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Ieuenctid (YFS), ac roedd y gwaith rhwng y TTI a'r YFS wedi'i wreiddio gan olygu bod newidiadau a chynlluniau i adael yn llyfn ac wedi'u cynllunio'n dda. Defnyddiodd y TTI wybodaeth o adroddiadau archwilio thematig a Thimau Troseddau Ieuenctid eraill fel sylfaen ar gyfer datblygu eu gwaith ac roedd hyn yn arbennig o amlwg ym mhrosesau datrysiadau y tu allan i'r llys. Nodom fod y rhain yn enghraifft o ymarfer da. Roeddem yn teimlo bod y sefydliad hwn yn ‘sefydliad sy’n dysgu’ a oedd yn croesawu adborth a syniadau newydd.<br><br>Yr hyn sy’n gwneud y gwasanaeth hwn yn wahanol yw ansawdd goruchwyliaeth y rheolwyr. Mae rheolwyr yn gosod disgwyliadau clir, yn cefnogi eu staff ac yn eu dal i gyfrif. Roedd goruchwyliaeth y rheolwyr yn gwneud gwahaniaeth clir i ansawdd rheoli achosion, ac roedd y prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu defnyddio’n dda – roedd yn drawiadol. |

**Y plant a’r bobl ifanc y mae Timau Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda nhw**

Ychydig iawn o wybodaeth ddemograffig sydd ar gael am y plant a’r bobl ifanc a gafodd rybuddiad neu euogfarn yn ystadegau blynyddol cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, mae'r tablau/ffigurau isod yn dangos yr wybodaeth rydym wedi'i chasglu o'r 791 o achosion datrysiadau yn y llys a'r 506 o achosion datrysiadau y tu allan i'r llys[20] y gwnaethom eu harchwilio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae’r sampl achosion hwn yn dangos bod achosion datrysiadau y tu allan i'r llys:

- yn fwy tebygol o fod yn fenywod
- yn iau
- yn llai tebygol o fod â statws Plentyn sy’n Derbyn Gofal
- gyda llai o sancsiynau blaenorol.

**Tabl 2: Demograffeg y sampl o achosion**

| **Rhywedd:** | **Datrysiadau yn y llys** | **Datrysiadau y tu allan i’r llys** |
|---|---|---|
| Gwryw | 694 (89%) | 427 (80%) |
| Benyw | 89 (11%) | 105 (20%) |
| **Oed** | | |
| < 10 | 0 | 0 |
| 10-11 | 1 (0%) | 17 (3%) |
| 12-14 | 60 (8%) | 184 (35%) |
| 15-16 | 277 (35%) | 205 (39%) |
| 17 | 233 (30%) | 118 (22%) |
| 18 | 213 (27%) | 5 (1%) |
| **Ethnigrwydd** | | |
| Gwyn | 548 (70%) | 401 (75%) |
| Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig | 217 (28%) | 115 (22%) |
| Arall | 11 (1%) | 8 (2%) |
| Heb ei gofnodi’n glir | 8 (1%) | 8 (2%) |
| **Plentyn sy’n Derbyn Gofal** | | |
| Ydy | 201 (27%) | 43 (9%) |
| Nac ydy | 546 (73%) | 468 (91%) |
| **Anabledd** | | |
| Ydy | 218 (29%) | 105 (21%) |
| Nac ydy | 470 (62%) | 311 (61%) |
| Heb ei gofnodi’n glir | 73 (10%) | 95 (19%) |

[20] Nid yw data coll wedi cael ei gynnwys felly ni fydd pob cyfanswm yn rhoi 791 na 506

O’r rheini a oedd ag anabledd, anabledd dysgu a salwch meddwl oedd y mwyaf cyffredin yn y naill sampl a’r llall. Er enghraifft, roedd cyfran y plant a phobl ifanc a oedd ag anableddau dysgu ar draws y naill sampl a’r llall gyda’i gilydd yn 13 y cant. Ystyriwyd ei fod yn effeithio’n ‘sylweddol’ ar ychydig dros 40 y cant o’r plant a phobl ifanc ag anabledd yn y naill sampl a’r llall.

Roedd y gyfran fwyaf o blant a phobl ifanc yn cael datrysiadau yn y llys am drosedd trais yn erbyn y person (46 y cant). Yn ddiddorol, roedd hynny'r un fath ar gyfer yr achosion y tu allan i’r llys (43 y cant)

Mae llawer yn fwy y gallem ei wybod am y plant a’r bobl ifanc nad ydynt yn llwyth achosion cyfredol y Timau Troseddau Ieuenctid. Mae toreth o dystiolaeth ymchwil sy’n awgrymu bod plant a phobl ifanc sy’n hysbys i’r system cyfiawnder ieuenctid eisoes wedi wynebu sawl trawma yn eu bywyd. Byddai’n beryglus mapio unrhyw newidiadau ym mhrofiadau plant a phobl ifanc sy’n gweithio gyda'r TTI i ategu (neu fel arall) y gred ei bod hi nawr yn llawer mwy cymhleth ac anodd gweithio gyda’r garfan lai.

Mae’r dull gweithredu Rheoli Achosion Uwch,[21] ar sail methodoleg sy’n seiliedig ar drawma a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru mewn partneriaeth ag arbenigwyr (ac sy’n dechrau cael ei fabwysiadu gan rai Timau Troseddau Ieuenctid yn Lloegr), yn ceisio cydnabod a mynd i’r afael â hyn. Roedd eu dadansoddiad gwreiddiol o’r plant a’r bobl ifanc a oedd yn troseddu mwyaf cyson ac mewn cysylltiad â Thimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru yn datgelu’r canlynol:

- Roedd 48 y cant wedi gweld trais yn eu teulu
- Roedd 55 y cant wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso
- Roedd 62 y cant yn delio â thrawma
- Roedd 79 y cant mewn cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol
- Nid oedd gan 81 y cant unrhyw gymwysterau
- Roedd gan 95 y cant broblemau camddefnyddio sylweddau.

Os caiff hyn ei allosod i gynrychioli’r mathau o blant a phobl ifanc y mae Timau Troseddau Ieuenctid ar draws Cymru a Lloegr yn gweithio gyda nhw, mae’n glir bod eu heriau yn fwy na dim ond mynd i’r afael ag ymddygiad troseddol.

Mae’r adroddiad blynyddol diweddaraf ar fregusrwydd gan y Comisiynydd Plant[22] yn awgrymu bod nifer y plant a phobl ifanc sydd mewn risg oherwydd cefndir teuluol bregus yn cynyddu, gyda dros hanner y rheini yr amcangyfrifir eu bod yn fregus yn cael prin dim neu ddim cefnogaeth gan wasanaethau statudol. Gan wybod bod yr elfennau hyn yn ffactor risg ar gyfer troseddu, ceir risg go iawn y bydd y problemau hyn yn dod yn fwy amlwg yn nes ymlaen. Gallai hyn roi llwyddiannau’r system cyfiawnder ieuenctid yn y fantol.

[21] Canolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru, a’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2014). Rheoli achosion uwch https://wccsj.ac.uk/hwb-doeth/images/documents/ECM/ECMa.pdf.

[22]Y Comisiynydd Plant. (2019). *Childhood vulnerability in England 2019.* https://www.childrenscommissioner.gov.uk/publication/childhood-vulnerability-in-england-2019/.

# Canfyddiadau allweddol ein harchwiliad

## Parth 1: Darpariaeth sefydliadol

Dylai gwasanaethau troseddau ieuenctid effeithiol gynnwys y canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llywodraethu da ac arweinwyr cydweithredol cryf | Staff ymroddedig a medrus | Partneriaethau a gwasanaethau gwych | Cofnodion manwl a chyfleusterau da |

Sut y gwnaethom sgorio gwasanaethau troseddau ieuenctid ar:

| **Arweinyddiaeth a Llywodraethu** | | | |
|---|---|---|---|
| Rhagorol<br>3 gwasanaeth | Da<br>14 gwasanaeth | Angen gwella<br>6 gwasanaeth | Annigonol<br>3 gwasanaeth |
| **Staff** | | | |
| Rhagorol<br>4 gwasanaeth | Da<br>13 gwasanaeth | Angen gwella<br>6 gwasanaeth | Annigonol<br>3 gwasanaeth |
| **Partneriaethau a Gwasanaethau** | | | |
| Rhagorol<br>2 wasanaeth | Da<br>12 gwasanaeth | Angen gwella<br>11 gwasanaeth | Annigonol<br>1 gwasanaeth |
| **Gwybodaeth a Chyfleusterau** | | | |
| Rhagorol<br>4 gwasanaeth | Da<br>12 gwasanaeth | Angen gwella<br>7 gwasanaeth | Annigonol<br>3 gwasanaeth |

*Dylai llywodraethu y TTI gynnwys gweledigaeth a strategaeth leol glir ar gyfer darparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn ac unigolyn ifanc.*

Yr oedd y rhan fwyaf o'r Timau Troseddau Ieuenctid a archwiliwyd yn rhan o is-adran Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol, ac un ai yn dîm penodol eu hunain neu wedi'u hintegreiddio gyda'r gwasanaeth cymorth cynnar. Nid oedd unrhyw un model a oedd yn fwy buddiol na'r llall i'r TTI, ond yr oedd bod wedi'u lleoli'n agos at gymorth cynnar yn ymddangos fel pe bai'n helpu gyda'r integreiddio.

## Byrddau Rheoli

Mae gan bob TTI Fwrdd Rheoli i oruchwylio'r gwaith cyfiawnder ieuenctid er bod y Byrddau hyn weithiau yn cael eu huno ag un ai diogelwch cymunedol neu gymorth cynnar. Er enghraifft, yn Wandsworth, yr oedd Bwrdd Rheoli'r TTI wedi'i uno â'r Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol gan greu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd TTI, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr. Yn Swydd Warwick, roedd y Bwrdd Rheoli yn cael ei alw yn Fwrdd Prif Swyddogion ac yr oedd hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa strategol oedd gan ei aelodau yn eu hasiantaethau eu hunain a'u gallu i ymrwymo adnoddau i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Er bod llawer o Fyrddau Rheoli yn treulio amser yn datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer TTI, siom oedd nodi nad oedd staff TTI, ac yr oedd hyn yn cynnwys rheolwyr mewn rhai sefydliadau, bob amser yn ymwybodol o weithgareddau'r Bwrdd Rheoli a sut yr oedd yn effeithio ar eu gwaith hwy. Yn dros hanner yr ardaloedd a archwiliwyd yr oedd bwlch sylweddol rhwng y Bwrdd Rheoli a'r staff, gyda'r naill na'r llall yn llwyr ddeall swyddogaethau a chyfrifoldebau ei gilydd. Yr oedd nifer o adroddiadau wedi datgan fod angen i'r rhyngweithio rhwng Bwrdd Rheoli'r TTI, y tîm rheoli a staff rheng flaen wella, er mwyn i bawb ddeall blaenoriaethau'r TTI, a sut yr oedd y rhain yn dylanwadu ar y ddarpariaeth weithredol.

Canfu'r rhan fwyaf o archwiliadau fod gan Bennaeth Gwasanaeth y TTI gyfrifoldebau strategol eraill ochr yn ochr â chylch gorchwyl cyfiawnder ieuenctid. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ataliol, cymorth cynnar wedi'i dargedu, plant ar goll o'u cartrefi a chamddefnyddio sylweddau.

Canfu Archwilwyr fod effaith y Bwrdd yn cael ei ddylanwadu gan wybodaeth y Cadeirydd am gyfiawnder ieuenctid ac ymgysylltiad partneriaid. Yn Lambeth, er enghraifft, yr oedd y Bwrdd yn penodi Cadeirydd Annibynnol ac yr oedd ei wybodaeth helaeth am gyfiawnder ieuenctid wedi galluogi partneriaid i ddeall eu rôl ar y Bwrdd a sut y gallai eu hasiantaethau hwy eu hunain gefnogi gwaith y TTI. Cydnabyddir, fodd bynnag, nad yw Cadeirydd annibynnol â'r dylanwad a'r grym i greu newid mewn asiantaethau unigol bob amser.

## Pryderon ynghylch addysg

Roedd diffyg amlwg o ran cynrychiolwyr addysg digon strategol ar rai Byrddau a oedd yn anfoddhaol gan fod angen gwella perfformiad sawl TTI ym maes Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE). Mewn wyth allan o ddau ddeg chwech o archwiliadau, doedd dim cynrychiolydd addysg ar y Bwrdd Rheoli. Codwyd pryderon am ansawdd y ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mewn un deg saith o adroddiadau allan o'r dau ddeg chwech. Yr oedd nifer yn pryderu nad oedd plant yn derbyn eu hawl statudol i addysg, ac eraill yn codi'r mater o ddiffyg darpariaeth o ansawdd i rai ar ôl oed ysgol. Mewn sawl adroddiad, yr oedd pryder am ddarpariaeth ETE cyn ac ôl 16 oed. O ganlyniad, yr oedd gwella darpariaeth ETE yn ymddangos yn y prif argymhellion ar gyfer llawer o'r Timau Troseddau Ieuenctid a archwiliwyd y llynedd.

Dengys ein dadansoddiad, hyd yn oed pan oedd TTI yn nodi plant ag anghenion addysg neu hyfforddiant, nad oedd digon ohonynt yn mynd ymlaen i ymgymryd ag unrhyw weithgaredd perthnasol.

**Tabl 3: Anghenion addysg a mynediad**

| | Nifer yr achosion | Rhai ag angen ETE wedi'i nodi | Rhai a ymgymerodd â gweithgaredd |
|---|---|---|---|
| Achosion llys | 791 | 482 (61%) | 360 (715%) |
| Achosion y tu allan i'r llys | 506 | 204 (40%) | 135 (66%) |

Mewn ychydig o achosion, bu i ni ganfod fod plant yn derbyn addysg a oedd gyfystyr â dim ond un awr y diwrnod – roedd hyn yn eu gadael yn segur a hwythau'n agored ac yn fwy tebygol o aildroseddu. Mewn un ardal, canfuwyd fod staff wedi mynd ati i addysgu plant a oedd wedi cael eu heithrio o'r ysgol am nad oedd unrhyw ddewis arall a oedd yn addas. Er bod y bwriad yn un clodwiw, nid ydym o'r farn fod hyn yn briodol pan nad oes gan y staff y sgiliau, yr hyfforddiant a'r wybodaeth i wneud y gwaith hwn yn dda.

Yr oedd cynrychiolaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) hefyd yn anghyson. Ychydig iawn o Fyrddau a oedd yn cynnwys cynrychiolydd o'r CRC, ac roedd cynrychiolaeth yr NPS yn anghyson, er bod hyn fel arfer oherwydd problemau staffio. Nid oedd partneriaid anstatudol yn eistedd ar rai Byrddau ac yr oedd y rhain yn cynnwys cynrychiolaeth o'r llys, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, y gwasanaeth tân ac achub a thai.

Rhoddodd cynrychiolwyr iechyd rai enghreifftiau da o sut y gallant gyfrannu at y TTI fel Aelodau o'r Bwrdd. Mewn rhai ardaloedd, er enghraifft Dudley, yr oedd cwblhau asesiad anghenion iechyd wedi arwain at gynnydd yn y ddarpariaeth iechyd i blant a phobl ifanc yr oedd y TTI yn gwybod amdanynt. Mewn 10 allan o 26 adroddiad a gwblhawyd, nodwyd bod gan y TTI ddarpariaeth iechyd gref a allai gynnwys gweithwyr CAMHS, mynediad at seicolegwyr, nyrsys, therapyddion iaith a lleferydd, a gweithwyr camddefnyddio sylweddau. Yn y nifer fechan o adroddiadau a oedd yn tynnu sylw at wasanaethau iechyd gwael, yr oedd hyn fel arfer yng nghyswllt mynediad at wasanaethau CAMHS.

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, canfu archwiliadau fod materion sy'n effeithio ar droseddau ieuenctid yn amlwg ar agenda grwpiau strategol eraill, gan gynnwys y Bwrdd Diogelu Plant Lleol, y Bwrdd Iechyd a Lles, a Byrddau Diogelwch Cymunedol.

Yr oedd pob Bwrdd Rheoli TTI yn derbyn adroddiadau perfformiad, a'r rhan fwyaf yn cynnwys cymysgedd o ddangosyddion lleol a chenedlaethol. Nododd ychydig dros hanner yr adroddiadau fod y Bwrdd Rheoli yn derbyn gwybodaeth dda am berfformiad, er ei bod weithiau'n canolbwyntio gormod ar ychydig o ddangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol, sef y nifer a oedd yn ymuno am y tro cyntaf, cyfraddau aildroseddu a nifer y plant a'r bobl ifanc mewn caethiwed. Nid oedd gwybodaeth arall am berfformiad, fel honno'n ymwneud ag iechyd neu addysg, bob amser yn cael ei hystyried na'i defnyddio gan y bartneriaeth ehangach i ddadansoddi anghenion penodol plant yr oedd y TTI yn gwybod amdanynt. Fe wnaethom ni argymhellion i wella gweithrediad y Bwrdd Rheoli yn naw o'n harchwiliadau.

### Gweithio mewn partneriaeth


Canfu archwiliadau fod gwaith gweithredol effeithiol yn amrywio ar draws y TTI a'i fod yn waelach lle yr oedd staff allweddol y bartneriaeth ar goll. Mae angen i Dimau Troseddau Ieuenctid sicrhau, er mwyn cynnal adnoddau o asiantaethau partner, bod yn rhaid iddynt fuddsoddi amser a darparu tystiolaeth o'r effaith y mae meysydd penodol o arbenigedd yn ei chael ar eu gwasanaeth. Er enghraifft, mewn un TTI doedd dim swyddog prawf a'r TTI wedi

bod â'r swydd hon yn wag ers peth amser. Mewn un arall, nid oedd gweithiwr addysg na chynrychiolydd addysg ar y Bwrdd. I'r gwrthwyneb, yn Sandwell, yr oedd gan blant a phobl ifanc fynediad amserol at amrywiaeth drawiadol o wasanaethau, yn cael eu darparu gan asiantaethau partner a gwasanaethau a gomisiynwyd. Ar y cyfan, roedd gan y rhan fwyaf o Dimau Troseddau Ieuenctid fynediad at swyddogion heddlu, swyddogion prawf, gweithwyr camddefnyddio sylweddau a gweithwyr iechyd. Yr oedd gan rai Timau Troseddau Ieuenctid fynediad at weithwyr iaith, lleferydd a chyfathrebu, er mai ychydig iawn oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn i sicrhau bod eu dogfennaeth, megis taflenni, cynlluniau a chontractau yn ystyriol o blant.

Yr oedd adborth o'r llysoedd yn gadarnhaol gan fwyaf ac yn nodi fod staff TTI yn darparu gwasanaeth eirioli da i blant a theuluoedd, ac yn cyfathrebu'n dda gyda llysoedd. Yn Hounslow, mae'r staff yn arbennig o ragweithiol a byddant yn siarad ag ynadon cyn i'r unigolyn ifanc ymddangos i esbonio os oes gan y plentyn unrhyw anghenion dysgu, neu nodweddion ymddygiad, y dylent eu hystyried yn ystafell y llys.

# Parth 2: Datrysiadau yn y llys

Mae ymarfer effeithiol yn cynnwys:

|  |  |  |  |
|---|---|---|---|
| Asesiadau dadansoddol ac wedi'u teilwra'n arbennig | Cynlluniau cadarn sy'n cynnwys pobl ifanc a theuluoedd | Gwasanaethau cydlynol ac o ansawdd uchel | Adolygiadau cynnydd sy'n cynnwys pobl ifanc a theuluoedd |

Sut y gwnaethom sgorio gwasanaethau troseddau ieuenctid ar:

| **Asesu** | | | |
|---|---|---|---|
| ★ Rhagorol 11 gwasanaeth | ● Da 7 gwasanaeth | ● Angen gwella 6 gwasanaeth | ● Annigonol 2 wasanaeth |
| **Cynllunio** | | | |
| ★ Rhagorol 9 gwasanaeth | ● Da 5 gwasanaeth | ● Angen gwella 6 gwasanaeth | ● Annigonol 6 gwasanaeth |
| **Gweithredu a Chyflawni** | | | |
| ★ Rhagorol 7 gwasanaeth | ● Da 9 gwasanaeth | ● Angen gwella 8 gwasanaeth | ● Annigonol 2 wasanaeth |
| **Adolygu** | | | |
| ★ Rhagorol 6 gwasanaeth | ● Da 6 gwasanaeth | ● Angen gwella 10 gwasanaeth | ● Annigonol 4 gwasanaeth |

Gall ymwneud plentyn neu unigolyn ifanc â'r TTI amrywio o dri mis i dair blynedd gan ddibynnu ar ba orchymyn neu ddatrysiad y maent yn ddarostyngedig iddo (er y gallai hyn fod yn llawer hwy ar gyfer troseddau mwy difrifol sy'n golygu dedfryd hir o gaethiwed). Gall llwythi gwaith ymestyn ar draws gwahanol Dimau Troseddau Ieuenctid gan ddibynnu a ydynt yn cario achosion statudol yn unig neu a ydynt hefyd yn cynnwys achosion ymyriadau cynnar neu achosion atal. Yn ein barn ni, y nifer delfrydol o achosion yw oddeutu 12 - 15 i bob rheolwr achos, gan y bydd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc y mae'r TTI yn gwybod amdanynt â phroblemau cymhleth sydd angen sylw. Bydd faint o amser y bydd rheolwr achos yn ei dreulio gyda phlentyn neu unigolyn ifanc yn dibynnu ar y gorchymyn neu'r datrysiad y maent yn ddarostyngedig iddo. Er enghraifft, ar Raglen Goruchwylio a Gwylio Dwys, bydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn cael ei weld o leiaf bum gwaith yr wythnos; ar Orchymyn Atgyfeirio efallai na fydd hynny ond unwaith bob pythefnos. Mae'r amserlenni hefyd yn dibynnu ar lefel y risg y mae'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn ei hachosi yn nhermau aildroseddu, risg o niwed i eraill a'u diogelwch a'u lles eu hunain.

Bydd gweithiwr y TTI yn cynnal asesiadau manwl ar bawb y maent yn eu goruchwylio ar ddechrau'r cyfnod goruchwylio, gan gynnwys y plentyn neu'r unigolyn ifanc a'u rhiant/gofalwr i edrych ar yr holl ffactorau sylfaenol a allai fod yn gyrru eu troseddu a'r risg y gallai'r plentyn neu'r unigolyn ifanc ei hachosi iddynt eu hunain ac i'r cyhoedd. Byddant hefyd yn cynnwys gwybodaeth o asiantaethau eraill sy'n adnabod y plentyn neu'r unigolyn ifanc a'u teulu, er enghraifft, ysgolion, gofal cymdeithasol plant a'r heddlu.

Yn dilyn yr asesiad, caiff cynllun ei gytuno gyda'r plentyn neu'n unigolyn ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Gall y cynllun hwn gynnwys sesiynau unigol a gwaith grŵp a bydd yn cynnwys darpariaeth arbenigol, er enghraifft, gwaith ar gamddefnyddio sylweddau, ymyriadau dioddefwyr, rhaglenni ymddygiad troseddol. Bydd y cynllun hefyd yn cynorthwyo'r plentyn neu'r unigolyn ifanc o ran unrhyw brofiadau niweidiol mewn plentyndod a'u iechyd meddwl a llesiant emosiynol.


Dylai'r cynllun gael ei adolygu gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc a'u rhieni/gofalwyr pryd bynnag y bydd digwyddiad arwyddocaol yn digwydd, er mwyn diweddaru'r asesiad. Dylai gael ei ddiweddaru hefyd pan fyd gweithgareddau wedi'u cwblhau neu wedi newid fel y gall y plentyn neu'r unigolyn ifanc weld eu cynnydd.

**Archwilio'r sampl achosion**

| Dyma nodweddion achosion rhagorol yn y llys a'r tu allan i'r llys: |
| --- |
| • asesiadau sy'n defnyddio ystod lawn o ffynonellau, ac yn dadansoddi'r wybodaeth honno yng nghyd-destun bywyd yr unigolyn ifanc. Maent yn cydnabod ac yn adeiladu ar gryfderau'r unigolyn ifanc, ond hefyd yn cysylltu ag agweddau ehangach bywyd yr unigolyn ifanc, fel teulu, addysg a hamdden.<br>• cynllunio sy'n cydnabod diogelwch a lles yr unigolyn ifanc a'r risg y gallant ei hachosi i eraill<br>• ymyriadau wedi'u nodi a'u darparu sy'n adeiladu ar gryfderau'r unigolyn ifanc, ac yn cael eu haddasu i gwrdd â'u hanghenion. |

| Dyma nodweddion achosion annigonol yn y llys a'r tu allan i'r llys: |
| --- |
| • asesiadau nad ydynt yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael<br>• cynllunio sydd ddim yn ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r unigolyn ifanc<br>• ymyriad ddim yn cael ei ddarparu mwn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion yr unigolyn ifanc<br>• ychydig yn cael ei wneud i gadw'r cyhoedd, neu'r unigolyn ifanc, yn ddiogel. |

**Ffigur 7: Ansawdd rheoli achosion ar gyfer datrysiadau yn y llys a'r tu allan i'r llys**




Ar draws y pedair safon yr ydym yn archwilio yn eu herbyn, canfu archwilwyr berfformiad gwell o ran asesu cychwynnol ar achosion newydd (yr oedd 18 allan o 26 gwasanaeth yn 'Dda' neu'n 'Rhagorol') nag adolygu parhaus (roedd 12 allan o 26 yn 'Dda' neu'n 'Rhagorol' a phedwar yn 'Annigonol').

## Risg o niwed

Mae ein harchwilwyr yn cymryd diddordeb penodol ym mha mor dda y mae gwasanaethau'n rheoli'r risg o niwed a achosir gan yr unigolyn ifanc i bobl eraill

- **Asesu**

Yn gyffredinol, gwelsom fod ansawdd asesu'r risg o niwed i bobl eraill yn dda. Yn y rhan fwyaf o achosion, rhoddodd asesiadau sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwr/dioddefwyr, ac ystyriwyd cyfleoedd ar gyfer Cyfiawnder Adferol (RJ). Yr oedd asesiadau'n nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risg o niwed i eraill a oedd yn cael ei achosi gan y plentyn neu'r unigolyn ifanc, gan gynnwys nodi pwy sy'n wynebu'r risg a natur y risg honno yn oddeutu tri chwarter yr achosion. Yn yr un modd, yn y rhan fwyaf o achosion, yr oedd asesiadau'n dadansoddi pa reoliadau ac ymyriadau a fyddai orau o ran rheoli a lleihau i'r eithaf y risg o niwed a achosir gan y plentyn neu'r unigolyn ifanc. Yr oedd asesiadau (78 y cant) yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys

*Pan yr oedd gan wasanaethau weithiwr dioddefwyr dynodedig, gwelsom fod y maes ymarfer hwn yn tueddu i fod yn gryfach.*

ymddygiad ac euogfarnau blaenorol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol.

- **Cynllunio**

Gwelsom fod cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl yn ddiogel mewn dwy ran o dair o'r achosion a bod sylw'n cael ei roi i anghenion a dymuniadau'r dioddefwr. Mewn bron i dri chwarter o'r achosion, yr oedd cynllunio'n cael ei gryfhau drwy gynnwys asiantaethau eraill lle yr oedd yn briodol. Yr oedd cynllunio'n nodi'r rheoliadau a'r ymyriadau angenrheidiol

i hyrwyddo diogelwch pobl eraill mewn 71 y cant o’r achosion, ond nid oedd bob amser yn nodi trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli’r risgiau hynny a oedd wedi cael eu canfod.

- **Gweithredu a darparu**

Yn gyffredinol, barnwyd bod gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cynorthwyo diogelwch pobl eraill yn effeithiol mewn 71 y cant o’r achosion. Rhoddwyd sylw digonol i ddiogelu dioddefwyr a dioddefwyr posibl yn 64 y cant o’r achosion perthnasol. Barnodd staff ac archwilwyr fod gwasanaethau digonol ar gael i gynorthwyo i reoli a lleihau’r risg o niwed i eraill yn y rhan fwyaf o achosion. Yr oedd asiantaethau eraill a oedd â rhan yn rheoli’r risg o niwed ac ymyriadau wedi’u cydlynu’n ddigonol mewn 73 y cant o’r achosion. Cymerwyd camau gweithredu yn oddeutu 83 y cant o’r achosion perthnasol.

- **Adolygu**

Yn gyffredinol, roeddem o'r farn bod y broses adolygu’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel mewn 66 y cant o’r achosion.

Yr oedd adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy’n gysylltiedig â’r risg o niwed mewn 68 y cant o’r achosion. Yr oedd y plentyn neu’r unigolyn ifanc a’i rieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn ystyrlon wrth adolygu eu risg o niwed, a chafodd eu barn ei hystyried mewn 65 y cant o’r achosion. Roedd adolygu’n cael ei oleuo gan fewnbwn perthnasol gan asiantaethau eraill a oedd yn ymwneud â’r gwaith o reoli’r risg o niwed mewn 72 y cant o’r achosion. Yn siomedig, nid oedd adolygu bob amser yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun gwaith parhaus i reoli ac i leihau’r risg o niwed. Gwelsom mai dim ond mewn 68 y cant o’r achosion roedd hyn yn cael ei wneud yn ddigon da.

### Casgliad

Mewn 13 o’r 26 gwasanaeth a archwiliwyd, canfuwyd bod asesu risg i eraill ar gyfer datrysiadau yn y llys, yn rhagorol. Nid oedd cynllunio ar gyfer risg i eraill yn cael ei wneud gystal, gyda saith gwasanaeth wedi’i nodi fel rhai yr oedd angen eu gwella. Aseswyd bod y gweithredu a’r darparu yn y maes hwn yn ddigonol yn nhri o’r dau ddeg chwech o wasanaethau a archwiliwyd, a nodwyd bod wyth yn rhagorol. Roeddem o’r farn bod angen gwella un deg un o wasanaethau yn eu hadolygiad o risg o niwed i eraill; roedd chwech yn rhagorol. Aseswyd bod pedwar gwasanaeth yn rhagorol ym mhob agwedd ar y gwaith o reoli’r risg o niwed i eraill. Roedd asesiadau cryf yn cefnogi cynlluniau a oedd yn seiliedig ar wybodaeth a oedd yn sylfaen i ymyriadau effeithiol, ac roedd effaith hynny’n cael ei hadolygu’n briodol.

## Enghraifft o ymarfer da

Mae Adam yn unigolyn ifanc a oedd yn 17 mlwydd oed pan gafodd ei wneud yn destun Gorchymyn Atgyfeirio am 12 mis ym mis Chwefror 2018 am droseddau yn cynnwys dau fater o Fwrglera Tŷ Preswyl a gyflawnwyd ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2017 a Derbyn Eiddo wedi'i Ddwyn ym mis Tachwedd 2017. Yr oedd ganddo hefyd 21 o droseddau i'w Cymryd i Ystyriaeth.

Yr oedd Adam, ynghyd â'i frawd hŷn, wedi cael ei fabwysiadu'n ifanc iawn ac wedi dangos ymddygiad a oedd yn achosi pryder yn gysylltiedig â'i iechyd meddwl ac emosiynol. Yr oedd y TTI yn adnabod ei frawd hŷn, gan fod ganddo hanes o droseddu mynych yng nghyswllt materion o'r un natur. Dechreuodd Adam arbrofi gyda chyffuriau Dosbarth A ar yr un adeg ag y dechreuodd droseddu. O ganlyniad, gofynnwyd iddo adael y cartref teuluol a chanfu ei hun yn byw mewn llety â chefnogaeth a drefnwyd ar ei gyfer gan y rheolwr achos.

Yr oedd y rheolwr achos wedi ysgrifennu'r adroddiad cyn-dedfrydu (PSR) ac wedi cyflawni asesiad cynhwysfawr yn nodi nifer o ffactorau ymatal. Ffurfiwyd cynllun i fynd i'r afael â'r pryderon uniongyrchol ynghylch yr unigolyn ifanc, a oedd yn canolbwyntio'r bennaf ar gyfryngu teuluol a chodi ei ymwybyddiaeth o effaith troseddu ar ddioddefwyr.

Ar ddechrau'n ymyriad, dychwelodd Adam gartref, ac ynghyd â'i deulu, yr oedd cynlluniau iddo symud i fwrdeistref arall. Yn ystod y symudiad hwn, darparodd y TTI yr ymyriadau yn ei gyfeiriad cartref. Fe wnaethant hefyd hwyluso cynhadledd cyfiawnder adferol (RJ) lle y datgelodd Adam i ddechrau nad oedd yn poeni am yr effaith ar y dioddefwr ond yna datgelodd yn ystod y gynhadledd fod yn ddrwg ganddo am yr hyn a wnaeth ac ymddiheurodd yn uniongyrchol i'r dioddefwr.

## Enghraifft o ymarfer gwael

Mae Malachi yn unigolyn ifanc 15 mlwydd oed a dderbyniodd rybuddiad amodol Ieuenctid (YCC) am gael ei gludo mewn beic modur heb ganiatâd y perchennog. Cafodd y cofnod AssetPlus ei agor yn wreiddiol bythefnos cyn i'r YCC gael ei roi, ond nid oes llawer o wybodaeth ynddo, gyda'r rhan fwyaf ohono'n wag. Ni chafodd y prif ddogfennau eu llwytho ar ChildView (system recordio achosion). Roedd tystiolaeth bod ffurflen hunan-asesu wedi cael ei llenwi ond nid oedd dim o'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y broses gynllunio. Rhoddodd cyfarfod panel gyfarwyddyd bod angen cwblhau asesiad, ond ni weithredwyd ar hyn ac nid oedd unrhyw drosolwg gan reolwyr ar unrhyw adeg i wirio beth oedd angen ei wneud. Roedd yr hyn a ddigwyddodd wedi'i gyfyngu i bresenoldeb mewn hyfforddiant pêl-droed a sesiwn gynefino mewn campfa. Roedd cwpl o sesiynau wedi'u trefnu lle yr oedd gwaith dioddefwyr i fod i ddigwydd ond nid oes tystiolaeth bod unrhyw beth wedi cael ei wneud.

Roedd diffyg strwythur a goruchwyliaeth i'r holl fewnbwn, ac ychydig o ystyriaeth a roddwyd i gynnwys yr unigolion ifanc a'u gofalwr yn y broses o wneud penderfyniadau na'r dadansoddiad o'u hamgylchiadau cyfredol.

# Parth 3: Datrysiadau y tu allan i'r llys

Mae ymarfer effeithiol yn cynnwys:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Asesiadau dadansoddol ac wedi'u teilwra'n arbennig | Cynlluniau cadarn sy'n cynnwys pobl ifanc a theuluoedd | Gwasanaethau cydlynol ac o ansawdd uchel | Adolygiadau cynnydd sy'n cynnwys pobl ifanc a theuluoedd |

Sut y gwnaethom sgorio gwasanaethau troseddau ieuenctid ar:

| **Asesu** | | | |
|---|---|---|---|
| Rhagorol 6 gwasanaeth | Da 5 gwasanaeth | Angen gwella 5 gwasanaeth | Annigonol 10 gwasanaeth |
| **Cynllunio** | | | |
| Rhagorol 7 gwasanaeth | Da 2 wasanaeth | Angen gwella 10 gwasanaeth | Annigonol 7 gwasanaeth |
| **Gweithredu a Chyflawni** | | | |
| Rhagorol 5 gwasanaeth | Da 7 gwasanaeth | Angen gwella 8 gwasanaeth | Annigonol 6 gwasanaeth |
| **Cydweithio** | | | |
| Rhagorol 8 gwasanaeth | Da 9 gwasanaeth | Angen gwella 6 gwasanaeth | Annigonol 3 gwasanaeth |

## Asesu ansawdd datrysiadau y tu allan i'r llys (OoCD)

Rhan gynyddol bwysig o'r gwaith a wneir gan y Timau Troseddau Ieuenctid a'r heddlu yw gyda phlant sydd wedi cyflawni trosedd lefel isel y gellir ymdrin â hi heb fynd i'r llys. Troseddau yw'r rhain lle nad yw eu herlyn er budd y plentyn nac er budd cyfiawnder. Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda nifer gynyddol o'r plant hyn ac yn wir, mewn rhai Timau Troseddau Ieuenctid, mae cyfran y datrysiadau y tu allan i'r llys yn uwch na nifer yr achosion sy'n cael eu goruchwylio o ganlyniad o orchmynion llys.

Mae dau fath o ddatrysiad y tu allan i'r llys; mae'r math cyntaf yn cyfrif fel unigolion sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf, a Rhybuddiadau Amodol Ieuenctid a Rhybuddiadau Ieuenctid yw'r rhain. Mae'r ddau uchod yn ganlyniadau ffurfiol

sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol, er eu bod yn parhau i gael eu gwyro o'r llys. Mae'r ail fath o ddatrysiad y tu allan i'r llys yn amrywio mwy ar draws y wlad, gydag ystod o enwau, megis brysbennu neu ddatrysiad cymunedol, a pholisïau a phrosesau gwahanol yn gysylltiedig â hwy. Nid yw'r canlyniadau hyn yn cyfrif fel unigolyn sy'n dod i mewn am y tro cyntaf ac nid ydynt yn ymddangos ar wiriad PNC.

Cynhaliodd Arolygiaeth Prawf EM archwiliad thematig ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018) ac roedd ein safonau ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn seiliedig ar yr archwiliad thematig hwn[23]. I gael darlun llawn o ansawdd cyffredinol goruchwyliaeth TTI, mae ein rhaglen newydd o archwiliadau ieuenctid yn cynnwys sampl o achosion datrysiadau y tu allan i'r llys, newid a gefnogwyd yn eang.

Mae cydnabyddiaeth gyffredinol y bu gwaith i wyro plant sydd wedi dod yn hysbys i'r heddlu oddi wrth ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid, yn llwyddiant. Y mae'n anodd profi'r llwyddiant yn empeiraidd, fodd bynnag, gan nad oes fawr ddim monitro systematig ar ei effeithlonrwydd, y tu hwnt i wybod bod nifer y rhai sy'n dod o'r newydd i'r system cyfiawnder ieuenctid wedi gostwng yn sylweddol ac yn gyson dros lawer o flynyddoedd. Mae hefyd yn wir fod cynlluniau i ddelio â datrysiadau y tu allan i'r llys yn amrywio'n fawr ar draws Cymru a Lloegr, yng ngraddau ac ansawdd y bartneriaeth ac o ran gwneud penderfyniadau ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r TTI. Maent hefyd yn wahanol i'w gilydd yn nhermau'r nifer o ddatrysiadau y tu allan i'r llys a roddir i blant a phobl ifanc mewn gwahanol wasanaethau, ac o ran cwmpas.

Gallai rhai ardaloedd a archwiliwyd nodi'r gyfradd droseddu ar gyfer y datrysiadau y tu allan i'r llys hyn ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu fel mater o drefn, nac yn cael ei defnyddio wrth ddatblygu ymyriadau i'r dyfodol nac wrth dargedu adnoddau.

Mae amrywiaeth eang ar draws y wlad yn nifer y datrysiadau gwahanol y gall plentyn eu derbyn cyn mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid ffurfiol. Er enghraifft, mewn un TTI, gwelsom fod polisi o gyfyngu plentyn i ddim ond un o'r canlyniadau hyn, ond mewn TTI arall doedd dim terfyn, gyda phenderfyniadau'n seiliedig ar yr hyn a oedd yn cael ei ystyried i fod er budd gorau'r plentyn. Daethom o hyd i enghraifft o un plentyn yn derbyn saith o'r datrysiadau hyn. Mewn ardaloedd eraill doedd dim polisi ffurfiol ac mewn un TTI yr oedd dryswch ymysg yr heddlu a'r TTI ynghylch faint o'r datrysiadau hyn y gallai plentyn eu derbyn. Fodd bynnag, fel y dengys y tabl, yn gyffredinol, y plant a oedd yn derbyn datrysiadau y tu allan i'r llys oedd y rhai nad oedd ganddynt ddim, neu ychydig iawn o sancsiynau blaenorol.

[23] Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a'r Gwasanaethau Tân ac Achub. (2018). *Out of court disposal work in youth offending teams.* https://www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/wp-content/uploads/sites/2/2018/03/Out of court-disposal-work-in-youth-offending-teams-reportb.pdf

**Tabl 4: Nifer o ddatrysiadau blaenorol ar gyfer achosion sy'n cael eu trin yn y llys a'r tu allan**

| Nifer o sancsiynau blaenorol | Datrysiadau yn y llys | Datrysiadau y tu allan i'r llys |
|---|---|---|
| 0 | 69 (12 y cant) | 360 (74 y cant) |
| 1 | 164 (28 y cant) | 77 (16 y cant) |
| 2-5 | 255 (44 y cant) | 46 (10 y cant) |
| 6-10 | 63 (11 y cant) | 1 (0 y cant) |
| 11-20 | 25 (4 y cant) | 0 |
| 20+ | 5 (1 y cant) | 0 |

Mae dealltwriaeth gymysg o statws cyfreithiol y datrysiadau y tu allan i'r llys hyn, yn ogystal ag o'r gofyniad ar y plentyn i ymgysylltu â'r ymyriad. Ni ellir cyfeirio atynt bob tro fel ymyriadau gwirfoddol, oherwydd mewn rhai ardaloedd TTI bydd methiant i ymgysylltu â'r ymyriad yn golygu sancsiwn mwy ffurfiol, megis rhybuddiad, neu atgyfeirio i'r llys. Mewn ardaloedd eraill bydd y mater wedi'i gau i'r heddlu adeg darparu'r datrysiad ac mae unrhyw ymyriad dilynol ar sail gwbl wirfoddol gan yr unigolyn ifanc.
Yn amlwg, mae hyn yn 'loteri cod post' o ran y ffordd y mae Timau Troseddau Ieuenctid yn ymdrin ag achosion y tu allan i'r llys a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny i'r plant dan sylw. Byddem yn cefnogi datblygu dull gweithredu cenedlaethol o ran gwneud penderfyniadau a chwmpas cynlluniau datrysiadau y tu allan i'r llys.

**Risg o niwed**

*Nid yw gwaith ar risg o niwed wedi gwneud cystal mewn achosion y tu allan i'r llys.*

- **Asesu**

Yn gyffredinol, dim ond yn 61 y cant o'r achosion yr oedd asesiadau'n dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel. Dim ond yn 56 y cant o'r achosion a archwiliwyd yr oedd asesiadau'n nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risg o niwed i eraill yr oedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn ei hachosi. Dim ond mewn 65 y cant o'r achosion yr oedd asesiadau'n gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys unrhyw asesiadau eraill a oedd wedi'u cwblhau, a thystiolaeth arall o ymddygiad y plentyn neu'r unigolyn ifanc. Mewn sawl achos, gwelsom fod asesiadau'n canolbwyntio ddim ond ar y drosedd a oedd wedi arwain at y datrysiad y tu allan i'r llys, a oedd yn effeithio ar ansawdd asesiadau risg. Roedd asesiadau'n rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwr/dioddefwyr, ac ystyriwyd cyfleoedd ar gyfer Cyfiawnder Adferol mewn dim ond 66 y cant o'r achosion.

- **Cynllunio**

Roedd cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl yn ddiogel mewn 64 y cant o'r achosion. Gwelsom mewn ychydig dros draean o achosion a archwiliwyd, nad oedd cynllunio'n rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau'r dioddefwr/dioddefwyr. Yr oedd cynllunio'n cynnwys neu'n cyfeirio at asiantaethau eraill lle bo'n briodol yn 70 y cant o'r achosion. Mewn llai na hanner o'r achosion yr oedd cynlluniau wrth gefn wedi'u cwblhau'n ddigon da. Nid oedd yn glir beth fyddai'n cael ei wneud pe byddai amgylchiadau a/neu lefelau'r risg o niwed yn newid.

- **Gweithredu a chyflawni**

Yr oedd gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cynorthwyo diogelwch pobl eraill yn effeithiol mewn 66 y cant o'r achosion gyda sylw digonol yn cael ei roi i ddiogelu dioddefwyr a dioddefwyr posibl. Yn y mwyafrif o achosion, yr oedd staff y TTI a'r archwilwyr yn teimlo bod y gwasanaethau yr oedd eu hangen i reoli'r risg o niwed i bobl eraill yn effeithiol, ar gael.  Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu defnyddio na'u cydlynu'n effeithiol bob amser. Yn gyffredinol, yr oedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn rheoli ac yn lleihau'r risg o niwed yn ddigonol mewn 68 y cant o'r achosion.

### Casgliad

Wrth gymharu â datrysiadau yn y llys, nid oedd y gwaith i reoli'r risg o niwed gystal ar gyfer achosion y tu allan i'r llys. Roedd yr asesiad yn 'Annigonol' mewn 10 gwasanaeth. Roedd pump o'r un deg tri a oedd wedi cael sgôr 'Rhagorol' yn yr asesiad o risg o niwed i eraill mewn achosion llys, hefyd wedi cael sgôr 'Rhagorol' yn yr asesiad o risg o niwed yn y sampl o ddatrysiadau y tu allan i'r llys. Roedd rhai gwasanaethau'n 'Rhagorol' yn eu hasesiad o'r risg o niwed ar gyfer achosion llys ond yn 'Annigonol' mewn achosion a gafodd eu trin y tu allan i'r llys - roedd hyn yn bennaf oherwydd addasrwydd y teclyn asesu roeddent yn ei ddefnyddio ar gyfer gwaith y tu allan i'r llys (gweler yr adran ar Asesu'r Risg o niwed a diogelu mewn datrysiadau y tu allan i'r llys).

Mewn achosion sy'n cael eu trin y tu allan i'r llys fe welsom fod yr asesiadau i gadw pobl eraill yn ddiogel yn 'Annigonol mewn 10 gwasanaeth, unwaith eto roedd addasrwydd y teclynnau asesu a ddefnyddiwyd yn effeithio ar ba mor dda roedd asesiadau wedi cael eu cwblhau mewn rhai Timau Troseddau Ieuenctid.

### Golwg gryno o ddadansoddi achosion: diogelwch a llesiant

Yn ogystal ag adolygu risgiau i eraill, dylai'r asesiad nodi a dadansoddi'n glir ddiogelwch a llesiant y plentyn neu'r unigolyn ifanc ei hun, a dylai'r gwaith cynllunio, gweithredu a chyflwyno hyrwyddo a mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd.

Mae nifer o'r plant a phobl ifanc sy'n cael gwasanaeth gan Dimau Troseddau Ieuenctid yn agored i niwed. O'r 791 o achosion a adolygwyd ar draws pob archwiliad, roedd archwilwyr wedi barnu bod llai na 10 y cant yn risg isel mewn perthynas â diogelwch a llesiant ar ddechrau eu gorchymyn. Roedd y gweddill yn ganolig, yn uchel neu'n uchel iawn.

Ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n cael datrysiadau y tu allan i'r llys, roedd yr archwilwyr wedi nodi bod gan gyfran uwch ffactorau risg iechyd a llesiant isel er bod y grŵp hwn yn cynrychioli dim ond traean o'r sampl.

Mae ansawdd y gwaith i adnabod ac i ymateb i ffactorau iechyd a llesiant ar draws y Timau Troseddau Ieuenctid a archwiliwyd hyd yn hyn yn amrywio'n fawr. Roedd y TTI a gafodd y sgôr uchaf yn asesu ac yn dadansoddi ffactorau diogelwch a llesiant yn effeithiol yn 96 y cant o'u hachosion. Roedd y TTI a gafodd y sgôr isaf wedi cynnal asesiad effeithiol o ddiogelwch a llesiant mewn dim ond 42 y cant o achosion. At ei gilydd, roedd yr asesiadau'n ddadansoddiad digonol o sut dylid cadw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn ddiogel mewn tri chwarter o'r achosion roeddem wedi'u harchwilio.

Ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys fe welsom fod cyfran yr achosion lle mae gwaith i sicrhau bod diogelwch a llesiant y plentyn neu'r unigolyn ifanc o ansawdd digonol yn is ar draws pob cam o'r achos o'r asesu i'r cynllunio i'r gweithredu ac i'r cyflwyno.

**Rhai o nodweddion cyffredin y rheini a oedd wedi asesu diogelwch a llesiant yn dda**

| Enghraifft o ymarfer da |
| --- |
| Roedd Nick yn 16 oed pan gafodd Orchymyn Atgyfeirio chwe mis o hyd am drosedd Ymosodiad Cyffredin. Mae’r asesiad yn pennu ei fod yn peri risg uchel i eraill a risg uchel mewn perthynas â diogelwch a llesiant. Mae ganddo hanes hir o ymosodiadau sy’n cynnwys defnyddio cyllell. Mae hyn wedi digwydd o flaen cyfoedion yn yr ysgol a thuag at staff gofal.<br><br>Mae’r gwaith cynllunio’n cynnwys canolbwyntio ar waith sy’n ymwneud â’r troseddu ac mae’r Rhaglen Herio Meddwl yn Droseddol wedi cael ei chyflwyno i geisio rhoi sylw i hyn, gan helpu Nick i ddatblygu ffyrdd gwahanol o osgoi bod yn dreisgar. Mae’n blentyn sy’n derbyn gofal ac yn cael cefnogaeth gan weithiwr cymdeithasol bob wythnos, mae ei reolwr achos yn ei weld bob wythnos ac mae llawer o ymdrech a ffocws ar wneud iddo gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon. Mae wedi cymryd rhan mewn prosiectau garddio a graffiti ac ar hyn o bryd mae ar gwrs Princes Trust sydd wedi’i anelu at wella ei gymhelliant i ymgysylltu â chyfleoedd addysg tymor hirach. Mae ei lesiant yn ffocws goruchwyliaeth oherwydd ei fod wedi hunan-niweidio yn y gorffennol. Mae ymgysylltiad priodol â CAMHS ac ar hyn o bryd mae tystiolaeth sy’n awgrymu ei fod yn mwynhau synnwyr gwell o lesiant. Mae’n parhau mewn lleoliad 1:1 ac mae hwn yn drefniant sefydlog. Mae'r rheolwr achos yn cael llawer o gyswllt gyda’r gweithiwr gofal ac mae tystiolaeth dda o gyfathrebu rheolaidd rhwng asiantaethau. |

- **Effeithiolrwydd cynllunio mewn perthynas â risg**

O’r achosion hynny gyda chyfraniad gan asiantaethau eraill, roedd y gwaith yn cael ei gydlynu’n ddigon da mewn tri chwarter o’r achosion. Mewn sawl ardal roedd cyfarfodydd ar gyfer cynllunio a rhannu gwybodaeth rhwng nifer o asiantaethau ac roedd y rhain yn canolbwyntio ar yr achosion mwyaf cymhleth. Roedd y rhain yn aml yn edrych ar ecsbloetio troseddol neu rywiol. At ei gilydd roedd y Timau Troseddau Ieuenctid yn cymryd rhan weithredol yn y cyfarfodydd hyn. Yn y rhaglen JTAI fe welsom ddarlun cymysg o ran ymwneud Timau Troseddau Ieuenctid mewn cyfarfodydd strategaeth sy’n cael eu cynnal pan fydd pryder newydd ynghylch amddiffyn plant yn dod i’r amlwg. Yn yr ardaloedd a oedd yn gwneud orau, roedd y TTI yn rhan o'r trafodaethau sydd fel rheol yn cynnwys gwasanaethau plant a’r heddlu ond mewn rhai ardaloedd roedd y Timau Troseddau Ieuenctid yn ymylol i’r penderfyniadau er bod ganddynt wybodaeth bwysig am y plentyn neu’r unigolyn ifanc.

- **Adolygu risg; delio â newidiadau mewn amgylchiadau**

Mae amgylchiadau’n gallu newid yn gyflym ym mywydau plant a phobl ifanc ac felly mae’n rhaid parhau i adolygu agweddau diogelwch a llesiant eu hasesiad a’u cynllun. Roedd gan y rhan fwyaf o Dimau Troseddau Ieuenctid banel neu drefniadau tebyg ar gyfer eu hachosion risg uchaf pan roedd amrywiaeth o weithwyr yn dod ynghyd i adolygu cynlluniau ac ymyriadau. O’r achosion perthnasol a gafodd eu hadolygu, roedd newidiadau mewn ffactorau a oedd yn ymwneud â diogelwch a llesiant mewn 72 y cant o’r achosion. Roedd asiantaethau eraill wedi bod yn rhan o fywyd y rhan fwyaf o’r plant a’r bobl ifanc ac roedd y TTI wedi cynnwys yr asiantaethau hynny yn y broses adolygu mewn bron i dri chwarter o’r

achosion. Roedd adolygiadau ysgrifenedig wedi cael eu cwblhau mewn tri chwarter o'r achosion ac roedd addasiadau wedi cael eu gwneud i gynlluniau mewn dwy ran o dair o'r achosion. At ei gilydd, roedd yr adolygu'n canolbwyntio ar gadw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn ddiogel mewn dwy ran o dair o'r achosion.

**Enghraifft o ymarfer da**

Mae Billy yn ddyn ifanc 15 oed ar Orchymyn Atgyfeirio am Ymosodiadau yn erbyn staff preswyl ac am Ddifrod Troseddol. Mae'r asesiad yn wych ac wir yn ceisio deall y ffactorau sy'n sail i'r ymddygiad troseddol, gan gynnwys ei brofiad o blentyndod a bod mewn gofal. Mae ganddo Anhwylder Straen Wedi Trawma a phryder ac mae hyn yn arwain at ymddygiad niweidiol tuag eraill a thuag ato'i hun.

Roedd Cynllun y Panel a'r Cynllun Plentyn sy'n Derbyn Gofal ill dau yn cynnwys targedau i wella annibyniaeth ac aros yn ddiogel. Mae Billy yn ddyn ifanc a oedd yn ynysu ei hun ac yn encilio drwy wneud ei fyd yn llai ac yn llai er mwyn diogelu ei hun. Cafodd ei gam-drin yn gorfforol a'i esgeuluso pan roedd yn blentyn ac roedd yn ymddwyn mewn ffordd a oedd yn niweidiol iddo'i hun ac i eraill. Ar ddechrau'r Gorchymyn Atgyfeirio nid oedd wedi gadael ei leoliad preswyl ers tro. Dywedodd fod bocsio o ddiddordeb iddo ac awgrymodd y gweithiwr TTI y byddai hi'n gyrru ac y gallen nhw fynd gyda'i gilydd. Nid oedd Billy yn ymddiried mewn oedolion o gwbl. I ddechrau roedd y gweithiwr TTI wedi'i annog i edrych ar ei char o ffenestr yr ystafell ac wedyn yn raddol dros amser fe eisteddodd yn ei char. Bob yn dipyn cafodd yr ymddiriedaeth ei meithrin gan symud ymlaen ar gyflymder a oedd yn gyfforddus iddo ef, cyn iddo gwrdd â'i weithiwr TTI yn y clwb bocsio a chael ei gyflwyno i'r hyfforddwr.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Cafodd Reece ddedfryd o Orchymyn Atgyfeirio am chwe mis am ddau achos o Feddiannu cyffuriau Dosbarth B a C a Meddu ar Declyn â Llafn. Nid oedd yr asesiad Ased yn ddigonol, ac nid oedd yn cynnwys dadansoddiad o'r drosedd arfau, ac nid oedd ffynonellau gwybodaeth, fel dogfennu Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cael eu hystyried nac hyd yn oed ar gael. Nid oedd yr asesiad o'r risg o niwed wedi ystyried yr holl ffactorau risg a oedd yn cyfrannu ac nid oedd y ffactorau diogelwch a llesiant wedi cael eu dadansoddi'n ddigonol, gan gynnwys iechyd emosiynol, y ffaith bod ei rieni'n camddefnyddio sylweddau a hunan-barch isel. Nid oedd digon o gyswllt gyda'r unigolyn ifanc a dim ond dwywaith welodd y rheolwr achos yr unigolyn ifanc drwy gydol y gorchymyn, roedd y tro cyntaf fis ar ôl i'r gorchymyn ddechrau. Nid oedd tystiolaeth bod ymyriadau wedi cael eu cyflwyno ar wahân i ddau sesiwn ar gamddefnyddio sylweddau a chwblhau'r oriau gwneud iawn. Ni chafodd goruchwyliaeth reoli ei chofnodi drwy'r gorchymyn ac nid oedd tystiolaeth o waith partneriaeth ar wahân i'r gwaith ar gamddefnyddio sylweddau. Yn gadarnhaol, fe gwblhaodd yr unigolyn ifanc ei orchymyn ac nid oedd wedi aildroseddu.

# Prif agweddau darparu

### Troseddau gyda chyllyll

Mae troseddau gyda chyllyll, a thrais difrifol ymysg pobl ifanc yn gyffredinol yn bryder uchel yn gyhoeddus ac yn wleidyddol yn dilyn cynnydd o 34 y cant o un flwyddyn i'r llall yn nifer y dynladdiadau a achoswyd gan gyllyll (2016-2017 i 2017-2018)[24]. Mae trychinebau o'r fath wedi cael eu hadlewyrchu mewn ystadegau eraill: bu cynnydd o 42 y cant yn nifer y troseddau gyda chyllyll sydd wedi cael eu riportio i'r heddlu ers 2010-2011 a chynnydd o 37 y cant ers 2013-2014 yn y nifer sydd wedi gorfod mynd i'r ysbyty oherwydd troseddau gyda chyllyll.

*Mae troseddau gyda chyllyll yn golygu defnyddio neu bygwth defnyddio cyllyll neu wrthrych gyda llafn neu feddiannu, cuddio neu gario arf o'r fath.*

Mae data gan y GIG yn cadarnhau bod y cynnydd mewn troseddau gyda chyllyll yn real ac nid yw o ganlyniad i fwy o ffocws a gweithgaredd gan yr heddlu.

Cyllyll ydy'r math mwyaf cyffredin o arf sy'n cael ei gario gan bobl ifanc yng Nghymru a Lloegr oherwydd eu bod yn rhad, yn hawdd eu cario ac yn hawdd cael gafael arnynt.

Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn hollbwysig er mwyn lleihau troseddau gyda chyllyll a diogelu pobl ifanc rhag trais. Mae eu safle strategol fel partner gydag ysgolion a grwpiau cymunedol yn gallu helpu i godi ymwybyddiaeth o gario arfau a gwytnwch i hynny.

Roeddem wedi arolygu Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr yn ystod haf 2019 i gael gwybod:

- beth oedd canfyddiad rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid o'r broblem troseddau gyda chyllyll yn eu hardal
- sut oeddent yn mynd i'r afael â'r broblem
- pa rwystrau oedd yn atal gweithredu effeithiol.

Roeddem hefyd eisiau gweld enghreifftiau o ymyriadau addawol ac ymarfer effeithiol.

Roedd chwe deg saith o Dimau Troseddau Ieuenctid (50 y cant) wedi ymateb i'n harolwg. Roedd yr ymatebion yn tueddu i ddod o ardaloedd trefol lle mae troseddau gyda chyllyll yn fwy difrifol ond fe gawsom ymatebion o bob rhanbarth yng Nghymru a Lloegr. Ein harolwg ydy'r canllaw cyfredol gorau ar yr hyn mae Timau Troseddau Ieuenctid yn ei wneud i ddiogelu cymdeithas rhag troseddau gyda chyllyll.

## Y prif ganfyddiadau

- Roedd chwarter o reolwyr Timau Troseddau Ieuenctid (26 y cant) yn asesu bod troseddau gyda chyllyll yn broblem fawr yn eu hardal; roedd 58 y cant yn meddwl bod troseddau gyda chyllyll yn broblem ganolig; roedd 16 y cant yn meddwl nad oedd troseddau gyda chyllyll yn broblem fawr.
- Roedd y Timau Troseddau Ieuenctid a oedd mewn ardaloedd trefol mawr yn llawer mwy tebygol nag eraill o fod yn wynebu problem fawr o ran troseddau gyda chyllyll.

---

[24] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). Dynladdiadau yng Nghymru a Lloegr: y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/homicideinenglandandwales/yearendingmarch2018#highest-number-of-sharp-instrument-homicides-seen-in-year-ending-march-2018

- Roedd y rhan fwyaf o reolwyr Timau Troseddau Ieuenctid (59 y cant) yn credu bod troseddau gyda chyllyll ar gynnydd. Roedd bron i draean (29 y cant) yn credu bod lefelau troseddau gyda chyllyll yn aros yr un fath. Roedd rhai (7 y cant) yn meddwl bod troseddau gyda chyllyll yn lleihau neu ddim yn gwybod (5 y cant).
- Roedd y Timau Troseddau Ieuenctid hynny a oedd yn wynebu problem 'ganolig' o ran troseddau gyda chyllyll yn fwy tebygol o ddweud bod y broblem ar gynnydd.
- Ar gyfer y rheini a oedd yn gallu rhoi'r data (n=68), ar gyfartaledd, roedd un rhan o bump o achosion statudol y Timau Troseddau Ieuenctid yn cynnwys troseddau gyda chyllyll. Roedd hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws yr ardaloedd o sero i 60 y cant o'r holl achosion.
- Roedd y rhan fwyaf o Dimau Troseddau Ieuenctid (59) yn darparu gwasanaethau ar gyfer achosion anstatudol (y rheini heb orchymyn llys na thrwydded Sefydliad Troseddwyr Ifanc) a oedd yn ymwneud â throseddau gyda chyllyll neu mewn risg o ymwneud â throseddau gyda chyllyll.
- Roedd y mwyafrif helaeth o Dimau Troseddau Ieuenctid (85 y cant) yn goruchwylio plant a oedd eu hunain wedi dioddef troseddau gyda chyllyll.
- Roedd troseddau gyda chyllyll yn flaenoriaeth benodol yng nghynllun busnes tri chwarter y Timau Troseddau Ieuenctid (75 y cant).
- Roedd y mwyafrif helaeth o Dimau Troseddau Ieuenctid (88 y cant) yn darparu rhaglenni ymyriadau troseddau gyda chyllyll. Roedd rhai Timau Troseddau Ieuenctid (29 y cant) wedi gwerthuso'r ymyriadau hynny'n ffurfiol.
- Roedd tua hanner y Timau Troseddau Ieuenctid (46 y cant) wedi darparu hyfforddiant ar droseddau gyda chyllyll i'w staff.
- Roedd gan tua hanner y Timau Troseddau Ieuenctid (52 y cant) bolisïau, gweithdrefnau neu gyfleusterau i ddiogelu staff ac ymwelwyr rhag y rheini a allai fod yn cario arfau.
- Roedd rhai Timau Troseddau Ieuenctid (15 y cant) yn cyflogi neu'n comisiynu gweithwyr arbenigol (fel seicolegwyr clinigol neu fentoriaid) ar gyfer ymyriadau troseddau gyda chyllyll.

### Rhannu gwybodaeth a phartneriaethau

At ei gilydd roedd Timau Troseddau Ieuenctid wedi'u gwreiddio'n dda mewn partneriaethau strategol lleol gan sôn am drefniadau rhannu gwybodaeth a chydweithio er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon gyda'r heddlu, addysg a gwasanaethau iechyd a phlant, a grwpiau cymunedol ehangach.

Cawsom wybod am enghreifftiau arbennig o waith partneriaeth. Er enghraifft, roedd un TTI yng Ngogledd Orllewin Lloegr yn datblygu rhaglen gyda'u hawdurdod addysg i blant a oedd wedi cael eu heithrio o'r ysgol. Roedd ymchwil wedi dangos yn gyson bod diffyg presenoldeb yn yr ysgol yn ffactor risg allweddol ac felly'n amlwg byddai'r plant hyn yn elwa o sesiynau ymwybyddiaeth ar y gyfraith a chanlyniadau niweidiol troseddau gyda chyllyll.

Mae Timau Troseddau Ieuenctid Llundain yn cydlynu gyda Swyddfa'r Maer dros yr Heddlu a Throseddu ar Strategaeth Troseddau gyda Chyllyll ar gyfer Llundain i gyd. Soniodd un TTI yn Llundain wrthym am gynllun trawiadol a oedd yn edrych ar bob agwedd gan gynnwys llywodraethu, adnabod unigolion a allai beri risg, ymyriadau a symudedd cymunedol. Roedd pob elfen o'r cynllun yn nodi camau gweithredu, amserlenni a rheolwr cyfrifol.

## Gwaith anstatudol

Mae atal troseddu yn un o swyddogaethau allweddol Timau Troseddau Ieuenctid. Roedd y rhan fwyaf o Dimau Troseddau Ieuenctid (59 y cant) yn darparu gwasanaethau i achosion 'anstatudol' a oedd yn ymwneud â throseddau gyda chyllyll neu a oedd mewn risg o hynny. Mae'r rhain yn achosion pan nad ydy'r unigolyn ifanc ar orchymyn llys ond mae wedi cael ei gyfeirio at y TTI i'w helpu i beidio â throseddu.

Un enghraifft benodol oedd TTI yng Nghanolbarth Lloegr a oedd yn gweithio gyda dwy elusen fawr i ddod o hyd i ardaloedd lleol lle'r oedd llawer o droseddau gyda chyllyll a mentora plant yr aseswyd eu bod mewn risg yn yr ardaloedd hynny. Roedd y rhaglen yn brysbennu'r plant i grwpiau risg is a risg uwch ac yn defnyddio ymyriadau gyda dwyster priodol ac roedd hefyd yn hyfforddi gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid a phartneriaid eraill i adnabod risg drwy ddefnyddio teclyn sgrinio ar gyfer ecsbloetio troseddol a bregusrwydd.

## Ymyriadau – wedi'u targedu a rhai cyffredinol

Roedd bron i naw TTI o bob deg yn darparu ymyriadau mewnol neu wedi'u comisiynu i'r plant hynny a oedd yn ymwneud â throseddau gyda chyllyll neu mewn risg o ymwneud â throseddau o'r fath. Fel rheol mae ymyriadau troseddau gyda chyllyll wedi cael eu dylunio i gael eu cyflwyno i grŵp o chwech neu wyth o bobl ifanc neu mewn sesiwn un-i-un os yw hynny'n fwy priodol. Mae gwaith grŵp rhyngweithiol ar sail seicoleg yn gallu ymgorffori celf, cerddoriaeth, trafodaethau grŵp ac yn aml mae'n golygu gwylio sefyllfaoedd wedi'u ffilmio fel ffordd o feddwl drwy'r dewisiadau a'r canlyniadau a gafodd eu gwneud gan yr actorion.

Mae nifer o Dimau Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda'r elusen gweithredu cymdeithasol ieuenctid Street Doctors sy'n ymarferwyr gofal iechyd, myfyrwyr meddygol yn aml. Mae Street Doctors yn dysgu sgiliau cymorth cyntaf achub bywyd ar gyfer ymosodiad gan gyllyll ac ymosodiadau difrifol eraill ac maent yn defnyddio'r cyfle yma i godi ymwybyddiaeth o ganlyniadau cyfreithiol ac iechyd troseddau gyda chyllyll, yn enwedig y neges nad oes lle diogel yn y corff i anafu gyda chyllell.

Roedd dau TTI wedi darparu sesiynau ymwybyddiaeth i dros 1,000 o blant ysgol a oedd wedi'u hanelu eu gwytnwch i gario cerbydau.

Roedd rhai Timau Troseddau Ieuenctid wedi cyflogi arbenigwyr, fel seicolegwyr clinigol, er mwyn gweithio gyda'r rheini a oedd yn ymwneud â throseddau gyda chyllyll. Roedd dau TTI wedi comisiynu seicolegydd clinigol ar y cyd i ganolbwyntio ar y rheini a oedd yn ymwneud â thrais gang neu mewn risg o ymwneud â hynny.

Roedd dau TTI yn Llundain wedi datblygu dull gweithredu ar sail trawma i'r mater gan gynnwys rhoi hyfforddiant arbenigol i'w staff i adnabod symptomau trawma a gwrthsefyll ail-drawmateiddio. Roedd y dull gweithredu'n cael ei werthuso gan dîm prifysgol.

Roedd TTI arall yn Llundain wedi datblygu proses cynhadledd grŵp teulu er mwyn dod â pherthnasau aelodau o gangiau gelyniaethus at ei gilydd er mwyn datblygu cynllun i ddod â heddwch i'w cymuned.

Roedd llai nag un rhan o dair o Dimau Troseddau Ieuenctid (29 y cant) wedi cynnal gwerthusiadau ffurfiol o'u hymyriadau. Rhaid i asiantaethau ofalu bod eu gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

## Rhwystrau rhag mynd i'r afael â throseddau gyda chyllyll

Soniodd nifer o Dimau Troseddau Ieuenctid am rwystrau rhag gallu gweithio'n effeithiol i atal troseddau gyda chyllyll. Cyllid annigonol a/neu gyllid tymor byr ar gyfer rhaglenni oedd

y prif rwystr. Dywedodd un TTI yn Llundain bod ffrydiau cyllido yn cael eu dyrannu i'r heddlu ar gyfer gorfodi ond ddim yn uniongyrchol iddyn nhw er mwyn gweithio ar atal a gwyro.

Pryder arall oedd y diffyg arweiniad gan lywodraeth ganolog ynghylch beth sy'n effeithiol wrth weithio gyda throseddwyr sy'n defnyddio cyllyll neu'r rheini sydd mewn risg. Fodd bynnag, mae sylfaen dystiolaeth i ymarferwyr ei defnyddio, er enghraifft roedd Sefydliad Iechyd y Byd wedi cyhoeddi adolygiad mawr yn 2015[25] ac mae'r model iechyd y cyhoedd yn Glasgow wedi cael ei ddilysu.[26]

Dylai Timau Troseddau Ieuenctid gael sesiwn briffio ymarferol ar droseddu gyda chyllyll er mwyn eu helpu i gynllunio i ymateb i droseddau gyda chyllyll.

Rydym yn siomedig bod rhai Timau Troseddau Ieuenctid yn cael anawsterau wrth rannu gwybodaeth â'r heddlu, ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill. Dylai'r uwch arweinwyr yn yr asiantaethau hyn sicrhau bod protocolau cyfreithlon i rannu gwybodaeth ac arweiniad fod ar gael er mwyn galluogi ymarferwyr i wneud eu gwaith. Unwaith eto, byddai templedi model yn cael eu croesawu.

Er gwaethaf y rhwystrau hyn, roedd ein harolwg wedi datgelu darlun cadarnhaol o ymrwymiad ac arloesedd gan Dimau Troseddau Ieuenctid wrth fynd i'r afael â bygythiad troseddau gyda chyllyll i bobl ifanc yn ein cymunedau.

### Llinellau cyffuriau

| Diffiniad: |
|---|
| *Gangiau a rhwydweithiau troseddol cyfundrefnol sy'n ymwneud ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu ragor o ardaloedd mewnforio yn y DU, gan ddefnyddio llinellau ffonau symudol penodol neu fath arall o 'linell delio'. Maent yn debygol o ecsbloetio plant ac oedolion agored i niwed i symud ac i storio'r cyffuriau a'r arian a byddant yn aml yn defnyddio gorfodaeth, bygythiadau, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.* |

Roedd ein harchwiliadau wedi gweld bod llinellau cyffuriau a'r gweithgareddau cysylltiedig yn amlwg ar draws Cymru a Lloegr. Fel rheol mae gweithrediadau llinellau cyffuriau yn cynnwys myrdd o weithgareddau troseddol: gangiau, cyffuriau, trais ac ecsbloetio troseddol a rhywiol. Mae plant ac oedolion agored i niwed yn dioddef niwed difrifol neu mewn risg o hynny, gan gynnwys: anafiadau corfforol, trais rhywiol, trawma emosiynol a seicolegol, a bod yn rhan o sefyllfaoedd peryglus ac annymunol.

Mae mynd i'r afael â gweithgareddau llinellau cyffuriau yn gofyn am ymateb gan nifer o asiantaethau ac mae'n her fawr i wasanaethau cyfiawnder troseddol heddiw. Ni allwn orbwysleisio effaith y gweithgareddau hyn ar blant – eu teuluoedd a chymunedau'n ehangach.

Cymysg fu'r ymateb gan Dimau Troseddau Ieuenctid.

Mae rhai Timau Troseddau Ieuenctid yn ymateb yn dda. Yn Hampshire, fe welsom fod staff yn cydweithio â'r heddlu i ganfod pobl ifanc a oedd yn ymwneud â gweithgareddau llinellau cyffuriau; roedd y TTI hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r cyngor sir i ddarparu gwasanaeth

[25] Sefydliad Iechyd y Byd. (2015). *Preventing youth violence: an overview of the evidence*. Geneva: Sefydliad Iechyd y Byd.

[26] Williams, D.J., Currie, D., Linden, W., Donnelly, P.D. (2014). *Addressing gang-related violence in Glasgow: A preliminary pragmatic quasi-experimental evaluation of the Community Initiative to Reduce Violence (CIRV)*. Ymddygiad Ymosodol a Threisgar, 19(6).

arbennig i blant a oedd ar goll, yn dioddef ecsbloetio a phlant a oedd yn cael eu masnachu. Ym Manceinion, mae sefydlu Canolfan Ddiogelu Gymhleth yn ymateb aml-asiantaethol i ystod eang o faterion gan gynnwys gangiau ac ecsbloetio.

Fodd bynnag, mae Timau Troseddau Ieuenctid eraill yn ei chael hi'n anodd ateb yr her. Mewn rhai achosion, nid oedd staff Timau Troseddau Ieuenctid yn dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth briodol o faterion llinellau cyffuriau ac effaith trawma ar blant a phobl ifanc. Rydym yn meddwl ei bod hi'n bwysig i ymarferwyr feddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf am feysydd ymarfer proffesiynol, a dylid dod o hyd i fylchau mawr mewn gwybodaeth a mynd i'r afael â nhw. Mae'n bosibl i staff Timau Troseddau Ieuenctid weld plant a phobl ifanc sy'n cael eu hudo neu eu hecsbloetio – ond dim ond os ydynt yn adnabod yr arwyddion.

**Mae taer angen cefnogaeth ac arweiniad cenedlaethol. Bydd hyn yn helpu Timau Troseddau Ieuenctid i:**

- adnabod y plant a'r bobl ifanc sy'n ymwneud â gweithgareddau llinellau cyffuriau neu a allai fod yn dargedau posibl
- datblygu sgiliau ac arbenigedd y staff, er mwyn iddynt allu adnabod arwyddion ecsbloetio ac wedyn cefnogi'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi dioddef hynny
- rhannu gwybodaeth a datblygu ymatebion gydag asiantaethau partner fel yr heddlu a gwasanaethau plant
- sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n cael eu hecsbloetio yn cael yr un gefnogaeth o ansawdd uchel, os ydynt yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr.


| Cogio: |
| --- |
| *mae grŵp troseddol yn rheoli cartref person agored i niwed er mwyn delio cyffuriau yno neu gyflawni troseddau eraill.* |

| Plygio: |
| --- |
| *mae plant yn cael eu gorfodi i gario cyffuriau yn eu rectwm neu eu gwain. Mae'r arfer hwn yn dod yn fwy cyffredin ac mae'n gam-drin plant yn rhywiol.* |

| Rhedwyr: |
| --- |
| *Unigolion sy'n danfon cyffuriau, arfau ac arian rhwng lleoliadau, yn cadw llygad ar gyffuriau ac arian mewn tai diogel, ac weithiau'n gwerthu cyffuriau'n uniongyrchol i ddefnyddwyr. Mae rhedwyr yn aml yn blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu hecsbloetio, gan ganiatáu i aelodau hŷn o'r gang ymbellhau oddi wrth ochr fwy peryglus y fenter.* |

**Ffigur 8 – Anghymesuredd ethnig**

Mae anghymesuredd yn digwydd ar wahanol gamau o’r system cyfiawnder ieuenctid (ffynhonnell: [Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid](#))



Mae'n hysbys bod anghymesuredd ethnig yn felltith yn y system cyfiawnder troseddol. Yn ei adolygiad o'r pwnc yn 2017 tynnodd David Lammy sylw yn benodol at y problemau mae hyn yn ei achosi i'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae hyn wedi cael ei ddangos yn fwyaf amlwg gan y ffigurau caethiwed diweddar sy'n dangos, am y tro cyntaf erioed, bod mwy o bobl ifanc ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn caethiwed na phobl ifanc wyn (ffigurau mis Mai 2019). Maent nawr yn cynrychioli 50 y cant o'r boblogaeth sydd mewn caethiwed, o'i gymharu â dim ond 18 y cant yn y boblogaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn cymharu â 27 y cant o blant a phobl ifanc o gefndir BAME a gafodd rybuddiad neu euogfarn yn 2017-18.[27] Cyfran sy'n cael ei hadlewyrchu yn y sampl o achosion roeddem wedi'u harchwilio.

Nid oes un ateb i fynd i'r afael â'r anghymesuredd. Ond mae'n hysbys ei fod yn dechrau ar yr adeg pan fydd rhywun yn ymuno â'r system (nid oedd Adolygiad Lammy wedi edrych ar yr heddlu). Mae'n gallu bod yn anodd mynd i'r afael â phatrwm sydd wedi dechrau ers tro byd ond mae angen dod o hyd i atebion. Bydd canolbwyntio ymdrechion ar atal yn werth y buddsoddiad, ond oni bai fod y cynlluniau hyn yn dwyn ffrwyth bydd angen ymateb effeithiol ar y problemau sydd eisoes yn bodoli. Mae natur aml-asiantaethol y Tîm Troseddau Ieuenctid yn gallu bod yn allweddol i sicrhau hyn.

Mae wyth o'r dau ddeg un archwiliad TTI sengl a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen newydd wedi pennu bod anghymesuredd BAME yn broblem. Mae ein harchwiliadau'n datgelu nad oes llawer o Dimau Troseddau Ieuenctid wedi'u harfogi i ddelio â hyn, gan gydnabod mai etifeddu'r anghymesuredd ethnig hyn y maent. Fodd bynnag, fe wnaethom ddod o hyd i enghreifftiau o ymarfer da.

Yn TTI Essex fe welsom dystiolaeth o ddadansoddiad fforensig cynhwysfawr o batrymau troseddu cyfredol, proffiliau plant a phobl ifanc, a'u hanghenion ymatal. Roedd y Bwrdd a rheolwyr y TTI yn deall ac yn defnyddio hwn yn dda. Roedd y dadansoddiad wedi dod o hyd i faterion o ran anghymesuredd mewn agweddau ehangach o'r system cyfiawnder ieuenctid. Roedd amrywiaeth o gamau wedi cael eu cymryd mewn ymateb i hyn, gan gynnwys cyflwyno'r dadansoddiad a'r heriau i ddedfrydwyr, a gwneud amrywiaeth ac anghymesuredd yn amcan datblygu yn y TTI. Roedd amrywiaeth hefyd yn destun ymarfer sicrhau ansawdd cynhwysfawr. Roedd yr archwilwyr wedi asesu bod digon o sylw wedi cael ei roi i ffactorau amrywiaeth ym mhob achos a gafodd ei archwilio bron.

Yn Sandwell, roedd gan y Bwrdd Rheoli bryderon penodol ynghylch gorgynrychiolaeth dynion ifanc du a chefndir ethnig cymysg yn y system cyfiawnder ieuenctid. Roedd hyn wedi arwain at gomisiynu nifer o brosiectau, gan gynnwys gan gwmni a oedd yn arbenigo mewn ymgysylltu â phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Roedd y cwmni wedi cwblhau ymarfer ymgynghori gyda phobl ifanc nad oedd y TTI yn ymgysylltu'n dda â nhw a chynhyrchodd fideo o'u hymatebion. O ganlyniad, mae'r TTI nawr yn gweithio gyda dau gwmni mentora ac mae gan y garfan Goruchwyliaeth Ddwys fynediad at stiwdio cerddoriaeth erbyn hyn. Mae hyn hefyd wedi arwain at dreialu Kitchen Table Talks, menter newydd sy'n ceisio cofnodi syniadau ac adborth rhieni. Mae'r TTI hefyd wedi cyflwyno'r Prosiect Treftadaeth, sy'n rhoi'r cyfle i bobl o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig a diwylliannau archwilio eu treftadaeth, gan gynnwys profiadau cenedlaethau hŷn.

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Manceinion wedi cynnal dadansoddiad cynhwysfawr er mwyn deall sut a pham bod nifer anghymesur o bobl ifanc BAME yn cael eu hanfon i gaethiwed. Mae hefyd wedi ymgysylltu ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill i ddatblygu strategaethau i leihau'r anghymesuredd hwn.

---

[27]Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2019). *Youth Justice Statistics 2017/2018*. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/774866/youth_justice_statistics_bulletin_2017_2018.pdf

Mae anghymesuredd du a lleiafrifoedd ethnig yn flaenoriaeth leol i TTI Wandsworth. Roedd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Bwrdd y TTI wedi comisiynu adroddiad anghymesuredd ar y garfan TTI, a oedd yn rhoi sylw i faterion fel pobl ifanc ddu a lleiafrifoedd ethnig ac eithrio o ysgolion, niferoedd stopio a chwilio gan yr heddlu, ymwneud â gwasanaethau ac ardaloedd o amddifadedd. Roedd yr adroddiad hefyd yn ystyried a oedd pobl ifanc ddu a lleiafrifoedd ethnig yn pledio'n ddieuog i droseddau'n amlach na'u cyfoedion gwyn; rhywbeth a fyddai'n eu heithrio rhag cael datrysiadau y tu allan i'r llys. Roedd yr adolygiad yn cynnig bod nifer o wasanaethau ar draws cymorth cynnar yn adnabod ac yn rhoi sylw i'r ffactorau sy'n gysylltiedig ag anghymesuredd ar gam cynharach.

Er gwaethaf yr enghreifftiau o ymarfer da, roedd nifer yn fwy nad oeddent yn gwneud digon. Mae angen i Dimau Troseddau Ieuenctid ddysgu gan ei gilydd yn ogystal ag ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid cyfiawnder troseddol ac ieuenctid lleol er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon.

### Adsefydlu

Yn ystod 2018 a 2019 roedd Arolygiaeth Carchardai EM ac Arolygiaeth Prawf EM wedi cynnal archwiliad thematig ar y cyd o adsefydlu ieuenctid.[28] Roedd hyn yn golygu ymweld â'r pum Sefydliad Troseddwyr Ifanc i edrych ar gynllunio a chanlyniadau adsefydlu ar gyfer deg bachgen ym mhob sefydliad. Roedd yr archwilwyr wedi cwrdd â gweithwyr achos mewn caethiwed, adolygu cynlluniau dedfrydu ac wedi siarad â'r bechgyn. Roeddent wedyn wedi dilyn hynt y bechgyn yn y gymuned ymhen tri mis, pan gawsom gwrdd â'u rheolwyr achos TTI, gweithwyr proffesiynol eraill a oedd yn ymwneud â'r achos, a'r bechgyn eu hunain eto pan roedd hynny'n bosibl.

Nid oes amheuaeth mai'r plant sy'n cael dedfryd o gaethiwed ydy'r plant anoddaf y mae Timau Troseddau Ieuenctid yn eu rheoli'n aml. Fel rheol maent wedi torri nifer o orchmynion cymunedol ac wedi cyflawni troseddau difrifol iawn. Fodd bynnag, yn rhy aml, roedd cynllunio'r adsefydlu yn canolbwyntio ar reoli ymddygiad yn yr ystad caethiwed a ddim ar gynllunio ar gyfer adsefydlu yn y gymuned ar ôl cwblhau'r ddedfryd o gaethiwed. Ychydig iawn o waith oedd wedi cael ei wneud yn y carchar i fynd i'r afael â'r ymddygiad troseddol. Roedd bechgyn yn aml yn cael eu cyfeirio at yr amrywiaeth o raglenni sydd ar gael yn y TTI, ond am amrywiaeth o resymau, fel dedfrydau byr neu brinder staff, nid oedd y rhaglenni hyn yn cael eu darparu. Yn aml, nid oedd y bechgyn yn gwybod i ba gyfeiriad byddent yn cael eu rhyddhau, nac i ble yn y wlad roeddent yn cael eu rhyddhau, tan yn fuan iawn cyn iddynt gael eu rhyddhau, ac mewn un achos, cafodd y bachgen wybod ar y diwrnod pan gafodd ei ryddhau. Mae hyn yn annerbyniol ac yn y sefyllfa mae modd ei hosgoi.

### Mewn caethiwed

Dywedodd staff caethiwed nad oeddent wedi cael eu hyfforddi ar swydd gweithiwr achos caethiwed ac nid oedd llawer o fewnbwn gan yr amrywiaeth o weithwyr proffesiynol eraill yn amgylchedd y carchar. Yn y rhan fwyaf o achosion (55 y cant) nid oedd rhieni na gofalwyr yn dod i'r cyfarfod i gynllunio'r gaethiwed. Roedd hyn yn golygu nad oedd teuluoedd yn cael llawer o fewnbwn at y cynllun adsefydlu er, yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r unigolyn ifanc yn dychwelyd i amgylchedd y teulu. Dylai teuluoedd gael mewnbwn ynghylch pa gefnogaeth y gallai fod ei hangen arnynt, yn ogystal â gwybodaeth am risgiau posibl mewn perthynas â brodyr a chwiorydd.

---

[28] Archwiliad thematig ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Carchardai EM (2019). *Youth resettlement – final report into work in the community.* http://www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/inspections/youthresettlementcommunity/

Nid oedd llawer o waith cynllunio'n cael ei wneud mewn perthynas ag addysg, gyda'r ddarpariaeth addysg mewn caethiwed yn dod i ben adeg rhyddhau ac roedd oedi o wythnosau neu fisoedd cyn i addysg ailgychwyn eto yn y gymuned. Mewn 57 y cant o achosion nid oedd darpariaeth addysg mewn lle dri mis ar ôl y dyddiad rhyddhau. Unwaith eto, mae hyn yn annerbyniol.

### Ar ôl rhyddhau

Roedd y canlyniadau i'r bechgyn hyn ar ôl y tri mis yn wael, roedd 20 y cant ohonynt wedi aildroseddu ac roedd 52 y cant arall yn destun ymchwiliad gan yr heddlu.[29] Roedd ychydig dros 20 y cant o'r bechgyn wedi torri amodau eu trwydded ac, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd hyn oherwydd eu bod wedi mynd ar goll ac nad oedd eu lleoliad yn hysbys. Fodd bynnag, roedd anghenion llety bron i 80 y cant ohonynt wedi cael sylw erbyn y cam tri mis yn ddiweddarach.

Roedd nifer o'r achosion wedi cael eu trosglwyddo i wasanaethau prawf oedolion a'r adborth gan staff oedd nad oeddent wedi cael prin dim hyfforddiant, os o gwbl, ar reoli trwydded Gorchymyn Cadw a Hyfforddi (DTO)[30], gydag un ardal prawf yn gwrthod derbyn achosion o'r fath oherwydd diffyg hyfforddiant.

### Pontio

Mae'n bosibl i blant a phobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan TTI wynebu sawl cyfnod o bontio, ac mae hyn yn digwydd amlaf i'r plant hynny sydd â'r risg uchaf a/neu sydd fwyaf bregus.

Yn yr archwiliad adsefydlu thematig, roedd nifer o bobl ifanc wedi symud at wasanaethau prawf i oedolion. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni chafodd hyn ei reoli'n dda, nid oedd y staff prawf yn gwybod llawer am sut roedd rheoli dedfryd Gorchymyn Cadw a Hyfforddi. Mewn rhai achosion roedd y pontio'n digwydd adeg rhyddhau, felly wrth i unigolyn ifanc fynd drwy newid mawr drwy symud o gaethiwed i'r gymuned, roedd hefyd disgwyl iddynt symud o'r TTI i wasanaethau ar gyfer oedolion.

Mae pobl ifanc sy'n cael eu pen-blwydd yn 18 pan fyddant mewn caethiwed yn dod yn destun goruchwyliaeth trwydded estynedig a weithredir drwy'r ddeddfwriaeth Ailsefydlu Troseddwyr a gyflwynwyd yn 2014.[31] Cafodd y rhan fwyaf o'r achosion hyn eu trosglwyddo i wasanaethau oedolion, ond dywedodd y swyddogion prawf a gafodd eu cyfweld nad oeddent yn gwybod sut roedd rheoli trwydded Gorchymyn Cadw a Hyfforddi ac nad oeddent wedi cael llawer o hyfforddiant yn y maes hwn. Roedd hi hefyd yn wir, yn y nifer bach o'r achosion hyn a arhosodd gyda'r TTI, nad oedd staff y TTI yn gwybod llawer iawn am sut roedd rheoli'r cyfnod trwydded estynedig chwaith.

Mae modd trosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau oedolion pan fyddant yn destun unrhyw fath o ymyriad llys. Mae'r protocol pontio yn glir y 'bydd anghenion yr unigolyn yn cael eu

[29] Wedi'u rhyddhau o dan ymchwiliad, roedd rhai o'r materion hyn yn ymwneud â throseddau a oedd wedi digwydd cyn y ddedfryd o gaethiwed, ond nid oeddem wedi casglu'r union ddata am hyn – byddwn yn gwneud hynny eleni.

[30] Mae Gorchmynion Cadw a Hyfforddi yn gallu para rhwng pedwar mis a dwy flynedd. Mae hanner cyntaf y Gorchymyn Cadw a Hyfforddi'n cael ei wneud mewn caethiwed, a'r ail hanner yn y gymuned.

[31] *Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 2014*. http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/11/contents/enacted

cydnabod' mewn unrhyw achos o bontio.[32] Yn ymarferol, ychydig iawn o Orchmynion Atgyfeirio sy'n cael eu trosglwyddo, ond ceir anghysondeb yn ymarferol. Bydd rhai Timau Troseddau Ieuenctid unigol yn cadw pobl ifanc 18 oed ar ôl eu pen-blwydd yn 18, a bydd eraill yn trosglwyddo ym mhob achos cymwys bron.

Mae nifer o Dimau Troseddau Ieuenctid wedi datblygu rhaglen bontio Y2A (Youth to Adult) (Wrecsam, South Tees, Hampshire) a bydd pawb sydd wedi cael eu pen-blwydd yn 17 yn cwblhau'r rhaglen hon, naill ai ar sail un i un, neu fel ymyriad grŵp. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar baratoi'r bobl ifanc am y gwahaniaethau rhwng goruchwyliaeth TTI a goruchwyliaeth oedolion, a'r gwahaniaethau mewn dedfryd mewn llys oedolion. Er na fydd yr holl bobl ifanc hyn yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau oedolion, mae'r rhaglen yn dal yn ddefnyddiol os bydd yr unigolyn ifanc yn aildroseddu ar ôl ei ben-blwydd yn 18.

Mae'r protocol pontio yn rhoi disgwyliadau clir ar gyfer trosglwyddo achosion o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion, ond nid oes cymaint o ganllawiau ar gael i staff prawf ar reoli'r bobl ifanc 18-21 oed hynny sy'n dod yn uniongyrchol o'r llys. Mae gwasanaethau prawf yn dweud eu bod yn defnyddio Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) i weld os oedd Timau Troseddau Ieuenctid eisoes yn gwybod am y bobl ifanc hynny, ond nid yw'r PNC yn cynnwys gwybodaeth am yr amrywiaeth o ddatrysiadau y tu allan i'r llys nad oeddent wedi golygu bod unigolyn ifanc wedi ymuno â'r system am y tro cyntaf. Gallai hyn olygu nad yw gwasanaethau prawf yn gwybod am yr wybodaeth sydd gan TTI am unigolyn ifanc sydd wedi cael ymyriad TTI yn dilyn rhai mathau o ddatrysiadau y tu allan i'r llys.

Roedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi datblygu porth Y2A er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau oedolion, ond mae hwn wedi bod yn broblemus ac nid yw wedi cael ei roi ar waith yn llawn.

Mae plant a phobl ifanc hefyd yn gallu cael eu trosglwyddo rhwng un TTI ac un arall. Mae hyn yn digwydd gan amlaf pan fydd plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn cael eu rhoi mewn awdurdod arall. Er mwyn lleihau'r effaith, mae trefniadau 'dros dro' yn cael eu rhoi ar waith, pan fydd y TTI gwreiddiol (TTI cartref) yn cadw'r cyfrifoldeb dros achos y plentyn neu'r unigolyn ifanc ac mae'r TTI lle caiff y plentyn ei leoli (y TTI lletyol) yn cael cyswllt o ddydd i ddydd gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc.[33]

Yn yr archwiliad adsefydlu thematig[34] roedd y trefniadau hyn yn berthnasol i bump y cant o'r achosion, yn aml gyda'r bobl ifanc yn cael gwybod llai nag wythnos cyn iddynt gael eu rhyddhau lle y byddent yn mynd. Nid oedd hyn yn rhoi llawer o amser i'r TTI lletyol gynllunio a pharatoi ar gyfer yr unigolyn ifanc a oedd yn golygu nad oedd llawer iawn o waith cynllunio'n cael ei wneud ar gyfer y trosglwyddo. Mae hyn yn cael ei waethygu gan yr anawsterau sy'n gallu wynebu Timau Troseddau Ieuenctid wrth drosglwyddo AssetPlus a chofnodion achos yn electronig o un system rheoli achosion i un arall (mae Timau Troseddau Ieuenctid yn defnyddio systemau rheoli achosion gwahanol).

Roedd rhai Timau Troseddau Ieuenctid, fel Hampshire, yn cadw cysylltiad da gyda'u plant a oedd yn cael eu lleoli y tu allan i'w hardal, a byddai'r rhai eraill yn defnyddio'r trefniadau

---

[32] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2018). Joint national protocol for transitions in England, HMPPS, NPS, YJB. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/703310/Joint_National_Protocol_for_Transitions_in_England_for_PDF_-_Final_version.pdf

[33] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2018). Y *Protocol Cenedlaethol ar Gyfrifoldeb am Achosion*.

[34] Archwiliad thematig ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Carchardai EM (2019). *Youth resettlement – final report into work in the community.* http://www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/inspections/youthresettlementcommunity/

dros dro, hyd yn oed os oedd y plentyn yn cael ei leoli lai na 10 milltir i ffwrdd, er bod hynny mewn awdurdod gwahanol.

Pan fydd plant a phobl ifanc yn gadael y system cyfiawnder troseddol ac yn ymuno â gwasanaethau prif ffrwd yn y gymuned ydy'r pontio olaf. Cynllunio i adael yw'r enw ar hyn. Yn yr archwiliadau a gwblhawyd hyd yma, aseswyd bod 81 y cant o Dimau Troseddau Ieuenctid wedi ystyried mynediad at wasanaethau prif ffrwd ar gyfer yr achosion roeddent yn eu goruchwylio.

# Atodiad 1: Disgrifiad o Dîm Troseddau Ieuenctid

Mae Timau Troseddau Ieuenctid[35] yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, o 10 oed[36] hyd at 18 oed, sy'n torri'r gyfraith. Efallai fod y plant hyn wedi cael dedfryd gan lys, neu efallai eu bod wedi dod at sylw'r heddlu ond nid ydynt wedi cael eu cyhuddo. Yn yr achos hwn byddai eu troseddu'n cael ei drin y tu allan i'r llys.

Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda'r holl bobl ifanc hyn i'w helpu i fyw bywydau gwell ac, yn y pen draw, cadw draw o droseddu. Gyda hyn mewn golwg, maent yn:

1. helpu pobl ifanc mewn gorsafoedd heddlu
2. darparu cefnogaeth yn y llys
3. goruchwylio pobl ifanc sydd ar ddedfryd gymunedol
4. cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc tra byddant mewn caethiwed a'u helpu i setlo'n ôl i'r gymuned ar ôl iddynt adael caethiwed
5. darparu ymyriadau i helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gwahanol yn eu bywyd

Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn bartneriaethau statudol, hynny yw, mae'r gyfraith yn mynnu eu bod yn cydweithio, ac maent yn amlddisgyblaethol, er mwyn iddynt allu delio ag anghenion y plentyn cyfan. Rhaid iddynt gael staff o wasanaethau addysg a gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol, yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r gwasanaethau iechyd lleol yn cydweithio er mwyn helpu'r bobl ifanc hyn. Mae'r rhan fwyaf o Dimau Troseddau Ieuenctid yn gweithio mewn awdurdodau lleol, gyda rhai wedi'u hintegreiddio'n llawn i wasanaethau'r awdurdod lleol fel gwasanaethau plant. Mae rhai wedi uno ar draws ffiniau awdurdodau lleol ac mae eraill yn rhai annibynnol. Caiff hyn ei bennu'n lleol ac, yn ein profiad ni, nid oes un model penodol sy'n arwain at ganlyniadau da mewn archwiliad. Caiff hyn ei gyflawni gan arweinyddiaeth cyfiawnder ieuenctid gref a gwybodus a ddaw drwy Fwrdd Rheoli amlddisgyblaethol a thîm rheoli'r TTI.

Mae gwaith Timau Troseddau Ieuenctid yn cael ei lywodraethu a'u siapio gan amrywiaeth o ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n benodol i'r sector cyfiawnder ieuenctid (fel Safonau Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid) neu sy'n berthnasol ar draws y sector cyfiawnder troseddol (er enghraifft y canllawiau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd).

---

[35] Rydym wedi defnyddio Timau Troseddau Ieuenctid fel term generig drwy'r adroddiad ar sail terminoleg ddeddfwriaethol.

[36] Oed cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru a Lloegr.

# Atodiad 2: Mathau o ddatrysiadau ieuenctid

Mae dau brif fath o ddatrysiad ieuenctid – yn y llys a'r tu allan i'r llys.

### 1. Llys

*Cosbau haen gyntaf*

Dyma'r datrysiadau mwyaf trugarog ac maent yn tueddu i gael eu cadw ar gyfer y rheini sy'n troseddu am y tro cyntaf neu ar gyfer troseddau llai difrifol.

- **Rhyddhad amodol neu ddiamod**
  Os bydd y llys yn penderfynu nad oes angen cosb yna bydd modd rhoi rhyddhad diamod i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc, felly bydd pob cam yn dod i ben ar yr adeg honno, neu ryddhau amodol sy'n golygu na fydd rhagor o gamau ar yr amod nad ydynt yn troseddu cyn pen cyfnod penodol. Tair blynedd ydy cyfnod hiraf posibl rhyddhad amodol.
- **Gorchymyn atgyfeirio**
  Mae gorchymyn atgyfeirio yn gontract gyda phanel atgyfeirio ieuenctid sy'n cynnwys tri oedolyn (un o'r TTI). Bydd yr unigolyn ifanc yn cwrdd yn rheolaidd â'r panel dros oes y gorchymyn, sy'n gallu bod rhwng tri a deuddeg mis, a bydd yn cael help i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol a rhoi sylw i'r difrod maent wedi'i achosi. Dim ond ar gyfer y rheini sydd wedi troseddu am y tro cyntaf mae'r mathau hyn o orchmynion ar gael.
- **Dirwy**
  Mae maint y ddirwy'n dibynnu ar ba mor ddifrifol ydy'r drosedd a gallu'r unigolyn i dalu. Y rhiant neu'r gwarcheidwad sy'n gyfrifol am dalu os ydy'r unigolyn dan 16 oed.
- **Gorchmynion gwneud iawn**
  Dyma pan fydd y llys yn gorchymyn bod yr unigolyn ifanc yn gwneud rhywbeth i wneud iawn i'r dioddefwr neu i'r gymuned.

*Dedfrydau cymunedol*

Mae'r rhain ar gyfer troseddau mwy difrifol ac er nad ydynt yn cyfyngu cymaint â dedfryd o gaethiwed, maent yn dal yn mynnu bod yr unigolyn ifanc yn diwallu gofynion penodol.

- **Gorchymyn Ailsefydlu Pobl Ifanc**
  Mae gan y math hwn o ddedfryd ofynion penodol y mae'n rhaid i'r unigolyn ifanc eu cwblhau yn ystod oes y gorchymyn (hyd at dair blynedd). Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, ond mae'n gallu cynnwys (mae modd cyfuno'r rhain):
  - gofyniad cyrffyw
  - gofyniad gweithgaredd fel addysg
  - gofyniad preswylio awdurdod lleol
  - gofyniad goruchwylio
  - gofyniad iechyd meddwl
  - gofyniad camddefnyddio sylweddau

*Dedfrydau o gaethiwed*

Mae’r mathau hyn o ddedfrydau’n cael eu cadw ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol. Mae modd anfon unigolyn ifanc dan 18 oed i un o dri gwahanol fath o gaethiwed:

- Cartref diogel i blant
- Canolfan hyfforddi ddiogel
- Sefydliad troseddwyr ifanc

Bydd y math o leoliad yn cael ei ddiffinio yn ôl oed, risg ac anghenion yr unigolyn ifanc.

Mae’r canllawiau ar gyfer dedfrydu plant a phobl ifanc yn cael eu cynhyrchu gan y Cyngor Dedfrydu ac maent yn cynnwys y manylion y mae’n rhaid i ddedfrydwyr eu hystyried wrth roi dedfryd.[37]

## 2. Y tu allan i’r llys

Ni fydd pob plentyn ac unigolyn ifanc sy’n cyflawni trosedd yn cyrraedd y llys. Mewn achosion llai difrifol, bydd pobl ifanc yn cael datrysiad y tu allan i’r llys. Bydd Timau Troseddau Ieuenctid wedyn yn gweithio gyda nifer o’r plant hyn i leihau’r risg y byddant yn troseddu eto.

- **Rhybuddiad amodol ieuenctid**
  Mae hwn yn hysbysiad ffurfiol sy’n cael ei roi gan yr heddlu. Mae’n ‘rhybuddio’ yr unigolyn ifanc i beidio â throseddu eto ac mae’n egluro canlyniadau posibl gwneud hynny. Mae Rhybuddiad Amodol Ieuenctid yn cynnwys gofynion y mae’n rhaid i’r unigolyn ifanc eu dilyn.
- **Rhybuddiad ieuenctid**
  Fel yr uchod ond heb y gofynion.
- **Datrysiad cymunedol**
  Defnyddir barn broffesiynol i fynd i'r afael â'r drosedd mewn ffordd anffurfiol, yn aml gan gynnwys y dioddefwr.

[37] Y Cyngor Dedfrydu (2017). *Dedfrydu plant a phobl ifanc: Canllaw pendant*. https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Sentencing-Children-and-Young-People-definitive-guideline-Web.pdf.

# Atodiad 3: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr yn rhoi rhywfaint o'u cyllid i Dimau Troseddau Ieuenctid (ar gyfartaledd 28 y cant o'u cyllid cyffredinol er bod hyn yn gallu amrywio o gyn lleied â 12 y cant i gymaint â 70 y cant ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid unigol ac mae hyn wedi gostwng dros amser).[38] Mae heyfd yn monitro eu perfformiad ac yn cyhoeddi canllawiau ynghylch sut dylid gwneud pethau.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn dal i oruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid ond mae ei rôl wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r sefydliad wedi cael ei ailwampio ac mae'r Bwrdd bellach yn canolbwyntio ei ymdrechion ar gyflwyno rhaglenni blaenoriaeth, sy'n golygu nad yw'n gweithio'n uniongyrchol gyda Thimau Troseddau Ieuenctid yn uniongyrchol mwyach ar eu hymateb i archwiliadau fel rhan o'u gwaith arferol. O ganlyniad, mae hyn wedi effeithio ar waith yr Arolygiaeth.

Arferai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid weithio mewn partneriaeth gyda'r TTI i ddatblygu ymateb y TTI i argymhellion ein harchwiliad. Roedd hyn yn help enfawr i ni, oherwydd roeddem yn gwybod y byddai ein hargymhellion, o'n harchwiliadau unigol a'n harchwiliadau thematig, yn cael eu hystyried o ddifri ac yn cael sylw cynhwysfawr, ond roedd hyn hefyd yn rhoi un pwynt cyswllt i ni er mwyn i ni gael gwybod am y cynnydd. Gan nad yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithio gyda'r Timau Troseddau Ieuenctid yn yr un ffordd bellach, maent wedi camu i ffwrdd o gefnogi Timau Troseddau Ieuenctid wrth iddynt roi ein hargymhellion ar waith.

Rydym nawr yn gweithio'n uniongyrchol gyda Thimau Troseddau Ieuenctid ar eu cynlluniau i wella'r gwasanaeth ac i roi sylw i argymhellion ein harchwiliadau ac ar hyn o bryd rydym yn ystyried sut byddwn yn cyflwyno gweithgareddau dilynol mewn ymateb i archwiliadau annigonol. Rydym hefyd yn edrych ar gryfhau cysylltiadau rhanbarthol, gydag archwilwyr unigol yn cysylltu gydag un neu ddau o ranbarthau er mwyn dosbarthu'r hyn a ddysgir o archwiliadau'n well. Mae hyn yn plethu â dull gweithredu dysgu ar sail sector y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Byddwn yn parhau i dracio ein hargymhellion thematig ond byddwn nawr yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r perchnogion unigol.

Mae gennym berthynas waith dda gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac rydym yn parhau i weithio'n golegol, gan ddefnyddio eu gwybodaeth goruchwylio a'u dangosyddion perfformiad allweddol fel ystyriaethau wrth flaenoriaethu archwiliad ar sail risg.

[38] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2019). *Youth Justice statistics: 2017 to 2018: Annex F – Resources in YOTs*. https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2017-to-2018.

# Atodiad 4: Archwiliadau 2018-2019 a map

1. Derby (sengl)
2. Hampshire (sengl)
3. Swydd Hertford (sengl)
4. Bryste (sengl)
5. Sandwell (sengl)
6. Essex (sengl)
7. Swydd Warwick (sengl)
8. Blackpool (sengl)
9. Barking a Dagenham (ar y cyd)
10. Hounslow (sengl)
11. Manceinion (sengl)
12. Wandsworth (sengl)
13. Western Bay (ar y cyd)
14. Wrecsam (sengl)
15. Oldham (sengl)
16. Lambeth (ar y cyd)
17. Sefton (sengl)
18. East Ridings (sengl)
19. Lerpwl (ar y cyd)
20. South Tees (sengl)
21. Dudley (sengl)
22. Walsall (sengl)
23. Swydd Gaerhirfryn (ar y cyd)
24. Sheffield (sengl)
25. Surrey (sengl)
26. Newham (sengl)



Arolgiaeth Prawf EM

HM Inspectorate of Probation
1 Bridge Street West
Civil Justice Centre
Manchester
M3 3FX

ISBN: 978-1-84099-900-6